

# Momentwm Gweithgynhyrchu

Os wnawn ni gyflawni ein targed twf, byddwn yn mynd yn brin o le.

fsb
Federation of Small Businesses
Ffederasiwn y Busnesau Bach

Swansea University
Prifysgol Abertawe

October 2023

## Diolchiadau

Rheolwr prosiect yr adroddiad hwn oedd Dr Llyr ap Gareth, Pennaeth Polisi yn FSB Cymru. Diolch hefyd i staff allweddol FSB Cymru, yn arbennig Lauren Rose, Mike Learmond a Rob Basini am eu cefnogaeth wrth gyrchu a chael gafael ar gyfweledigion ar gyfer y prosiect hwn. Diolch arbennig i dimau materion cyhoeddus, polisi a chyfryngau'r FSB, yn arbennig Kiera Marshall, a Gwyneth Sweatman.

Ni fyddai'r adroddiad hwn wedi bod yn bosibl heb ddirnadaethau busnesau bach arbenigol aelodau'r FSB, BBaChau a rhanddeiliaid a gymerodd ran yn y cyfweliadau ac yn natblygiad astudiaethau achos, a gyfranogodd yn yr ymchwil hwn, gan yn hael iawn gymryd saib o redeg eu busnesau a'u sefydliadau.

Cynhaliwyd yr ymchwil gan y Sefydliad Ymchwil mewn Arloesi ac Entrepreneuriaeth ym Mhrifysgol Abertawe, dan arweiniad yr Athro David Pickernell, ac yn cynnwys yr Athro Gareth Davies, yr Athro Nick Rich, Dr Annette Roberts, Dr Pouya Sarvghad Moghadam, Dr Gary Walpole, ac Alan Price.

## Ynglŷn â'r FSB

Ffederasiwn y Busnesau Bach (FSB) yw prif sefydliad busnes y Deyrnas Unedig. Wedi'n sefydlu dros 40 mlynedd yn ôl i helpu ein haelodau i lwyddo mewn busnes, rydym yn sefydliad nad yw'n gwneud elw, sy'n wleidyddol amhleidiol ac sy'n cael ei arwain gan ein haelodau, ar gyfer ein haelodau. Ein cenhadaeth yw helpu busnesau llai i gyflawni eu huchelgeisiau. Fel arbenigwyr mewn busnes, rydym yn cynnig amrywiaeth eang o wasanaethau busnes hollbwysig i'n haelodau, yn cynnwys cyngor, arbenigedd ariannol, cefnogaeth, a llais grymus mewn llywodraeth.

Yr FSB yw prif ymgyrchydd busnes y Deyrnas Unedig hefyd, yn canolbwyntio ar gyflawni newid sy'n cefnogi busnesau llai i dyfu a llwyddo. Mae ein tîm o arbenigwyr yng Nghaerdydd yn  gweithio gydag amryw o sefydliadau, gan ddefnyddio ymchwil i lobïo llywodraethau, gwleidyddion etholedig, a gwneuthurwyr penderfyniadau yng Nghymru.



Federation of Small Businesses

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Ffeithluniau** | **4** |
| **Rhagair** | **5** |
| **Crynodeb gweithredol** | **7** |
| **Argymhellion** | **8** |
| **PENNOD 1: Y DULL O WEITHREDU Y DULL O WEITHREDU** | **14** |
| **PENNOD 2: BBaCHau GWEITHGYNHYRCHU CYMRU MEWN FFOCWS: CANFYDDIADAU CYFWELIADAU** | **17** |
| Nodau ac Amcanion BBaCh: Twf a Chynaliadwyedd | 20 |
| Materion ynglŷn â Chwsmeriaid a Chadwyni Cyflenwi:Diffyg Sgiliau Cyflenwyr yng Nghymru | 23 |
| Arloesi: Adweithiol, Cyfyngedig i'r Cwsmer, Yn Canolbwyntio ar Gost, ac ag angen Cymorth | 31 |
| Cyllid: Materion Llif Arian, Cyllido Mewnol a Banciau Gwrth-Risg | 37 |
| Seilwaith: Adeiladau, Tir a TGCh | 40 |
| Cynaliadwyedd: Yr Angen am Gymorth a Diffyg Rheolaeth | 43 |
| **PENNOD 3: Y DARLUN MAWR: BBaCHau GWEITHGYNHYRCHU CYMRU YNG NGHYD-DESTUN ECONOMI CYMRU** | **46** |
| Strwythur Gweithgynhyrchu Cymru | 46 |
| Effeithiau Lluosydd Gweithgynhyrchu Cymru | 48 |
| Perifferoldeb a Gweithgynhyrchu Cymru | 50 |
| Cyd-destun Economaidd Rhyngwladol Gweithgynhyrchu Cymru | 51 |
| **DIWEDDGLO: GWNEUD LLE I DYFU AT YR HIR DYMOR** | **52** |


fsb
Federation of Small Businesses

# Ffeithluniau

Cysylltiadau rhwng Niferoedd Cwmnïau Sectoraidd a Lluosyddion mewn Gweithgynhyrchu yng Nghymru

| NIFER Y CWMNÏAU GWEITHGYNHYRCHU YN ÔL MAINT CWMNÏAU Y 10000 O OEDOLION 2018 | Nifer y gweithwyr | 1 - 49 | 50 - 249 | 250+ | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Deyrnas Unedig | 799 | 252 | 7 | 1 | 1059 |
| Lloegr | 845 | 259 | 7 | 1 | 1113 |
| Cymru | 561 | 207 | 5 | 1 | 774 |
| Yr Alban | 522 | 206 | 5 | 1 | 735 |
| Gogledd Iwerddon | 656 | 233 | 6 | 1 | 897 |
| **Cymru fel % o'r DU** | **70.21%** | **82.14%** | **71.32%** | **100%** | **73.09%** |

| NIFER Y CWMNÏAU YN ÔL MAINT CWMNÏAU Y 10000 O OEDOLION 2021 | Nifer y gweithwyr | 1 - 49 | 50 - 249 | 250+ | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Deyrnas Unedig | 768 | 253 | 7 | 1 | 1029 |
| Lloegr | 807 | 261 | 7 | 1 | 1076 |
| Cymru | 582 | 207 | 5 | 1 | 796 |
| Yr Alban | 542 | 203 | 5 | 1 | 752 |
| Gogledd Iwerddon | 581 | 236 | 6 | 1 | 897 |
| **Lloegr fel % o'r DU** | **105.08%** | **103.16%** | **100%** | **100%** | **104.57%** |
| **Cymru fel % o'r DU** | **75.78%** | **81.82%** | **71.43%** | **100%** | **77.36%** |
| **Yr Alban fel % o'r DU** | **70.57%** | **80.24%** | **71.43%** | **100%** | **73.08%** |
| **Gogledd Iwerddon fel % o'r DU** | **75.65%** | **93.28%** | **85.71%** | **100%** | **87.17%** |



fsb
Federation of Small Businesses



# Rhagair

Mae sector gweithgynhyrchu Cymru wedi mynd drwy newid sylweddol dros y degawd diwethaf, gyda thechnolegau newydd, ehangu pellach ar yr economi gylchol, ac amgylchedd cystadleuol sy'n newid yn gyflym yn ychydig yn unig o'r pethau sy'n ail-lunio'r dirwedd. Mae'r rhan fwyaf o fusnesau gweithgynhyrchu Cymru yn fentrau micro, bach, neu ganolig eu maint (BBaChau) sy'n wynebu materion arbennig ynglŷn â chadwyni cyflenwi, hyfforddiant a sgiliau, arloesi, cyllid, seilwaith, a chynaliadwyedd. Gyda hyn mewn cof, ceisiodd Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru ennill gwell dealltwriaeth o'r heriau sy'n wynebu BBaChau yn sector gweithgynhyrchu Cymru a chomisiynodd ymchwil yn y maes hwn.

Mae gweithgynhyrchu, a'r arbenigedd o fewn y sector, yn llenwi lle hollbwysig o fewn economi Cymru. Mae'n ysgogi arloesi, gan dyfu cymhwysedd cadwyni cyflenwi a helpu i ateb a mynd i'r afael â rhai o heriau mawr y cyfnod, o dyfu economi Cymru i heriau newid hinsawdd. Bydd aildyfiant economaidd cynaliadwy ond yn bosibl gyda sector gweithgynhyrchu ffyniannus yn cael ei gefnogi gan uchelgais clir gan wneuthurwyr penderfyniadau.

Cododd y gwaith hwn faterion nad oeddynt yn syndod, megis problemau gydag ynni, trafnidiaeth, ac anawsterau recriwtio nifer digonol o staff cymwysedig. Fodd bynnag, cododd materion llai amlwg hefyd, megis diffyg cyflenwyr yng Nghymru ar gyfer llawer o'r adnoddau y mae BBaChau Cymru yn eu defnyddio. Fe wnaeth yr enghraifft o'r busnes oedd yn wynebu lliaws o broblemau ar yr un pryd daro tant arbennig, yr angen i ddelio â'r senario "popeth, ym mhobman, i gyd ar unwaith" a oedd ag angen polisïau lluosog i agor hyblygrwydd i gwmnïau yn y sector i allu symud tuag at dyfu eu busnes, tuag at addasu a chreu strategaeth ar gyfer cyfleoedd o dueddiadau yn y dyfodol.  Yn ogystal mae gwneud lle ar gyfer gweithgynhyrchu yn golygu darparu'r lle a'r amser hwn ar adeg o 'bopeth ymhobman i gyd ar unwaith' i feithrin eu gallu i weithio tuag at y tymor hwy.



fsb Federation of Small Businesses

Mae'r argyfyngau presennol yn cynnig cyfleoedd i feddwl yn wahanol, i edrych ar yr hyn yr ydym yn rhoi gwerth arno yn ein sylfaen gweithgynhyrchu BBaCh, a chadarnhau'r hyn y mae arnom eisiau adeiladu tuag ato. Felly mae hi'n amser am ailasesiad o sut y gallwn gefnogi busnesau rhagorol lawer Cymru i oroesi, datblygu, a thyfu'n gadarn at y dyfodol. Ystyriwn mai rôl llywodraeth yw darparu cyfeiriad pendant a strategaeth, gan ddarparu cefnogaeth a rheoleiddio callach wedi'i anelu at rymuso cwmnïau llai drwy roi iddynt yr hyblygrwydd sydd ei angen ar gyfer twf. Bydd hyn yn caniatáu i BBaChau edrych i fyny o'u pryderon uniongyrchol ac amgyffred y gorwel mwy hir dymor, gan baratoi at adferiad a phontio gwyrddach.

Mae'r adroddiad hwn yn taflu goleuni ar y bwlch rhwng pwysau byrdymor a gweledigaeth hir dymor, a bod cyfle arwyddocaol, wrth bontio'r bwlch hwnnw, i fusnesau gweithgynhyrchu Cymru roi eu hunain ar sylfaen fwy cadarn, meithrin sgiliau a chyflogaeth a pharatoi at gyfleoedd yn y dyfodol. Gall darparu mwy o hyblygrwydd ar gyfer BBaChau sy'n dlawd o ran amser ac adnoddau fod â buddion economaidd arwyddocaol felly. Mae hi'n bwysig cysylltu strategaeth hir dymor â'r camau gweithredu byrdymor tactegol a defnyddio'r camau gweithredu i feithrin capasiti a galluoedd cwmnïau yn unol â hynny. Er nad yw'r anghenion byrdymor i fusnesau bach mewn argyfwng a gweledigaeth hir dymor Llywodraeth Cymru tuag at 2050 yn groes i'w gilydd, mae angen rhoi llais iddynt gyda'i gilydd er mwyn teithio yn yr un cyfeiriad ac i'r naill a'r llall atgyfnerthu ei gilydd.

Mae mynd i'r afael â'r heriau a amlygir yn yr adroddiad hwn yn ddiamau'n peri anawsterau. Er hynny, fel y tystir gan y dulliau arloesol a fabwysiadwyd gan rai o'r busnesau a gyfwelwyd, mae yna le ar gyfer atebion newydd ac addasadwy. Mae'r adroddiad hwn yn gyfraniad pwysig at ddeall y problemau sy'n wynebu BBaChau gweithgynhyrchu Cymru.

Ym mis Tachwedd 2023 rhyddhaodd FSB Cymru adroddiad ar sgiliau a'r economi BBaCh, 'Economi a Arweinir gan Sgiliau i Gymru: Tyfu BBaChau trwy Ddatblygu Sgiliau'. Dylai canfyddiadau'r adroddiad hwn ar weithgynhyrchu BBaCh gael eu hystyried ochr yn ochr â ffocws thematig adroddiad FSB Cymru 'Economi a Arweinir gan Sgiliau i Gymru' ar sgiliau, a barn cyfweledigion ar anghenion sgiliau ar gyfer y ddau adroddiad gael eu paru er mwyn darparu sylfaen dystiolaeth ehangach.

Mae FSB Cymru yn edrych ymlaen at danio sgyrsiau ac at ymchwilio i'r ffyrdd mwyaf effeithiol o fynd ati i weithredu'r argymhellion a amlinellwyd gan y tîm ymchwil medrus dan arweiniad David Pickernell, Nick Rich, Gareth Davies, Annette Roberts, Pouya Sarvghad Moghadam, Gary Walpole, ac Alan Price.





Federation of Small Businesses

# Crynodeb Gweithredol

Mae sector gweithgynhyrchu BBaCh cryf yng Nghymru yn hanfodol bwysig ar gyfer cynhyrchiant, cadernid, cryfder ariannol, a datblygiad economi Cymru. Serch hynny, mae yna ddiffyg data a dealltwriaeth ynghylch sut y mae'r materion sy'n effeithio ar yr economi ar hyn o bryd yn dylanwadu ar strategaethau byrdymor a hir dymor BBaChau gweithgynhyrchu Cymru.

## Pwyntiau Allweddol Cwmnïau a Rhanddeiliaid

Mae cyfweliadau gyda chwmnïau (10) a rhanddeiliaid (6)[1] yn datgelu bod BBaChau yn canolbwyntio'n benodol ar dwf fel y prif nod, yn gweld arloesi fel cyfrwng ar gyfer hyn, ac yn canolbwyntio'n fawr ar faterion staff ar hyn o bryd. Mewn cyferbyniad, mae rhanddeiliaid yn rhoi llawer mwy o  bwyslais ar yr economi gylchol ac elfennau agenda sero net cynaliadwyedd.

Mae hyn yn amlygu'r ffocws culach sydd gan BBaChau ar hyn o bryd, mewn amgylchedd ble mae goroesiad byrdymor yn llai sicr nag yn yr amgylchedd cyn Covid yn arbennig, ac mae llawer yn teimlo eu bod ar hyn o bryd yn gorfod delio â "phopeth, ym mhobman i gyd ar unwaith". Mae rhanddeiliaid â barn fwy hir dymor, yn fwy tebygol o fod yn cael eu dylanwadu gan dueddiadau ym mholisi'r llywodraeth ynglŷn â chynaliadwyedd a sero net yn arbennig. Mae hyn, fodd bynnag, yn fater o bwyslais yn hytrach nag o anghytundeb sylfaenol.

Mae'r diffyg cadwyni cyflenwi wedi'u lleoli yng Nghymru yn fater allweddol a nodwyd gan gwmnïau a gan randdeiliaid, gan chwarae rhan bwysig yn faint o fusnes a enillwyd gan gwmnïau o Gymru, cryfder yr economi, a chyflogaeth. Gall argymhellion yn gysylltiedig â chamau gweithredu a argymhellwyd gan Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael (Cymru) 2023 fod yn arbennig o berthnasol yma hefyd, gan hyrwyddo canlyniadau cymdeithasol-gyfrifol a ddilynir trwy gadwyni cyflenwi, a chefnogi busnesau o Gymru a chyflenwi Cymreig. Roedd bylchau mewn sgiliau yn faes consenswss arall, gyda chwmnïau'n canolbwyntio ar feysydd sgiliau sylfaenol mwy byrdymor a rhanddeiliaid yn canolbwyntio ar sgiliau arwain a sgiliau'n gysylltiedig â chynaliadwyedd mwy hir dymor. Mae maes cytundeb cryf arall rhwng cwmnïau a rhanddeiliaid a wnelo â'r diffyg adeiladau / tir addas ar gyfer ehangu i gwrdd â dyheadau twf, yn ogystal ag argaeledd a chost ynni. Ynglŷn â chynaliadwyedd a chylcholrwydd, roedd rhanddeiliaid yn rhoi mwy o bwyslais ar hyn, ond roedd yna gonsensws gyda BBaChau (a oedd hefyd yn deall yr agenda cynaliadwyedd ac yn gefnogol iddi) ynghylch yr angen am weithredu gan y llywodraeth i ddileu rhwystrau i gymeriant gan BBaCh. Roedd materion ynghylch Tariffau Cyflenwi Trydan, seilwaith ynni ac anawsterau wrth weithio â'r sector cyhoeddus, yn golygu bod rhwystredigaeth ymhlith BBaChau na ellid manteisio ar gyfleoedd a glustnodwyd. Roedd rhanddeiliaid yn gweld atebion posibl nid yn unig mewn gwell gweithredu gan y llywodraeth ond hefyd yn natblygiad partneriaethau a rhwydweithiau lleol ar gyfer ailgylchu a rhannu gwybodaeth.

Mae cwmnïau'n sôn yn benodol hefyd am ynni, tir, staffio, a Brexit (cyfleoedd allforio a gollwyd a / neu amharu ar y gadwyn gyflenwi a / neu broblemau staffio). Caiff arloesi ei arwain yn bennaf gan y cwsmer ac mae'n adweithiol, ac o'r herwydd yn canolbwyntio'n aml ar hyn o bryd ar leihau costau, gydag argaeledd cyllid yn cael ei amgyffred yn gyfyngedig yn aml oherwydd colli ffynonellau cyllido ar ôl Brexit. Yn fwy cyffredinol mae cyllid yn cael ei amgyffred yn llai o broblem yn gymharol i BBaChau, ond yn bennaf oherwydd y sefyllfa ansicr ar hyn o bryd. I rai mae yna lai o alw oherwydd yr argyfwng ôl-Covid yn ysgogi dymuniad i beidio â mynd i fwy o ddyled, i eraill yn y cyfnod ôl-Covid nid ydynt yn dymuno ychwanegu at lefelau dyled sydd eisoes yn uchel, tra i eraill mae cyflenwi cyllid, yn arbennig gan fanciau, yn rhwystr i'w hamcanion twf, gan achosi i atebion dyled ac ecwiti eraill gael eu harchwilio.


Mae'r adroddiad hwn yn dangos hefyd, er mwyn i flaenoriaethau gael eu gosod yn effeithiol i ychwanegu at y manteision yn deillio o sector gweithgynhyrchu BBaCh iach yng Nghymru, bod angen i wneuthurwyr polisi ystyried y cyd-destunau amgylcheddol sydd wedi ac sy'n parhau i effeithio ar BBaChau o'r fath ac ar economi Cymru yn fwy eang.

[1] *In this context 'Stakeholders' covers local government and public sector bodies, Higher Education procurement, economic development, and representative bodies, from across Wales*

## Argymhellion

Mae cymryd yr holl dystiolaeth yma gyda'i gilydd yn awgrymu'r angen am ddull gweithredu tri cham gan wneuthurwyr polisi yng Nghymru. Dylai'r ffocws fod ar liniaru, yn y byrdymor, y poen y mae llawer o BBaChau gweithgynhyrchu Cymru yn eu hwynebu, i roi hyblygrwydd iddynt, yn fwy hir dymor gan anelu at adeiladu ecosystem entrepreneuraidd twf BBaCh fwy cadarn ble maent yn gallu mwyhau'r cyfleoedd y mae'r economi gylchol yn eu cynnig. Mae'r canlynol yn darparu'r bras fframwaith ar gyfer gweithredu yn y tymor byr, canolig a hir, yn cael ei ddilyn gan gamau gweithredu mwy penodol i adeiladu tuag at bob graddfa amser.

### Fframwaith ar gyfer Gweithredu




Yn y ***byrdymor***, dylai'r ffocws fod ar roi sicrwydd ble mae'n bosibl.

- Mae sgiliau, tir ac adeiladau yn feysydd ble mae galw uchel gan BBaChau. Mae'n faes hefyd ble gall Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r liferi sydd ar gael iddynt, a hynny'n gyflym, i leihau rhwystrau i gwmnïau bach.
- O ran sgiliau, gall Addysg Uwch ac Addysg Bellach, y naill a'r llall, chwarae rhannau pwysig, gan drosoli'r sgiliau y maent wedi'u hennill yn ystod Covid i greu cyrsiau byr, a arweinir gan y galw ac a ddarperir yn hyblyg (gan ddibynnu'n gryf ar ar-lein), a hynny'n gyflym. Dylai'r rhain gael eu cyd-greu gyda chynrychiolwyr busnesau bach o blith sectorau, i sicrhau dylunio perthnasol.
- O ran tir ac adeiladau, rhaid i asesiad o'r adnoddau sydd ar gael ddigwydd a sut y gellir dechrau eu defnyddio'n gyflym, gan ganiatáu i gwmnïau gweithgynhyrchu y lle sydd arnynt ei angen i dyfu.



fsb Federation of Small Businesses

Yn y ***tymor canolig***, mae ***mynediad at ynni, ei ddiogeledd a'i fforddiadwyedd*** yn allweddol i liniaru ymhellach y poen y mae BBaChau gweithgynhyrchu Cymru yn ei wynebu:

- Fel y'i stiwerdir gan llywodraethau'r DU a Chymru a'u hasiantaethau, byddai datblygu **cadwyni cyflenwi** cryfach **yng Nghymru**, yn ychwanegu at wydnwch ecosystem entrepreneuraidd twf BBaCh. Bydd hyn yn caniatáu i gwmnïau bach yn y sector gweithgynhyrchu fanteisio'n well ar y cyfleoedd y mae'r economi gylchol yn eu cynnig, oherwydd mwy o bosibiliadau i rwydweithio atebion o fewn ecosystem gydlynol. Dylai diogelu'r gadwyn gyflenwi yng Nghymru fod yn brif flaenoriaeth i'r ddwy lywodraeth.
- Mae'r dystiolaeth o'r cyfweliadau gyda chwmnïau yn awgrymu'r angen i sefydliadau Addysg Uwch gysylltu'n fwy effeithiol gyda'r sector gweithgynhyrchu, i gyflenwi graddedigion gyda chymysgedd gwell o sgiliau ymarferol ac arloesi ac arweinyddiaeth fwy perthnasol y gall cwmnïau gael atynt. Mae hyn yn awgrymu felly fod angen ffocws tymor canolig i addasu'r cynnig addysg uwch i wella cysylltiadau gyda chwmnïau bach yn y sector gweithgynhyrchu, i ddarparu profiad gwaith ac asesiadau fel rhan o lwybrau dysgu a chefnogi cyfnewid gwybodaeth y ddwy ffordd a fydd yn cysylltu â dyheadau mwy tymor hir.

Yn olaf, bydd datblygu'r agenda ***cynaliadwyedd a chylcholrwydd hir dymor*** yn creu cyfleoedd i weithgynhyrchu Cymru ddatblygu BBaChau mwy gwydn gyda mwy o botensial i oroesi, datblygu a thyfu.

Rhaid i Lywodraethau Cymru a'r DU ddarparu mwy o ffocws ar ***arloesi***, darpariaeth decach o gyllid yng Nghymru o gymharu â rhanbarthau a gwledydd eraill y DU. Bydd hyn yn gofyn am gamau polisi penodol, yn y tymor byr, canolig a hir.

## Camau Polisi Penodol

***Camau Tymor Byr***

- Sgiliau a hyfforddiant
  - Dylai Llywodraeth Cymru archwilio datblygu hyb sgiliau a hyfforddiant "dull canlyn merch" y gallai busnesau ryngweithio ag e' i ganfod cyrsiau sgiliau a hyfforddiant addas a'u paru â'r rheini sydd ar gael yn barod trwy'r llywodraeth, Addysg Bellach (AB) ac Addysg Uwch (AU).
  - Dylai Adran yr Economi a Sgiliau ac unrhyw randdeiliaid priodol ddefnyddio data trwy'r hyb hwn i glustnodi'r anghenion presennol am gyrsiau byr i lywio ymateb cyflym gan y sectorau AB ac AU, yn cael eu cefnogi gan y llywodraeth.
  - Dylai Llywodraeth Cymru nodi ble dylai hyn eistedd, a pha un a fyddai sefydliad sydd eisoes yn mapio cadwyni cyflenwi mewn gweithgynhyrchu, megis Manufacturing Wales, yn lle synhwyrol i ddatblygu a chynnal yr hyb. Fel dewis arall, gellid rhoi cartref iddo yn Busnes Cymru fel rhan o siop un alwad cymorth busnes Cymru. Dylid dadansoddi manteision ac anfanteision y naill a'r llall felly.
  - Dylai Llywodraethau'r DU a Chymru weithio gyda'i gilydd i ddefnyddio'r liferi llywodraeth sydd ar gael yn cynnwys cyllid ardollau Gradd-Brentisiaeth, a'r defnydd o gaffael cyhoeddus i hyrwyddo gweithgareddau a chyfleoedd sgiliau a hyfforddi.



fsb Federation of Small Businesses

*Tir / Adeiladau*

- Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu cronfa ddata eiddo, adeiladau ac atlas tir chwiliadwy y gallai busnesau uniaethu ag e' a chael eu paru ag eiddo, adeiladau, a thir addas. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth ynglŷn â defnydd priodol o eiddo, yn ogystal â maint, ac o bosibl amcangyfrifon o gost ar gyfer unrhyw addasu defnydd.
- Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu ymhellach.
    - liferi a photensial ar gyfer treth ar dir gwag yn y dyfodol
    - asesiad ar gyfer rhesymoli rheoliadau cynllunio
    - dylai Llywodraeth Cymru ddarparu rhyddhadau treth byrdymor i fusnesau bach sy'n bwriadu symud i adeiladau mwy a hurio staff newydd ac edrych ar bwerau pellach ar gyfer rhyddhadau am welliannau i adeiladau a pheiriannau dros raddfeydd amser hwy fel y bo'n briodol er mwyn cynorthwyo'r pontio i sero net.
    - galluogi deddfwriaeth i ganiatáu cronni a rhannu trwy gwmni cydweithredol ar gyfer ynni, perchnogion a thenantiaid, mewn dull math Ynni Ogwen i BBaChau weithio ar y cyd, yn cael ei hwyluso gan reolwyr adeiladau / safleoedd allweddol.

*Y Deyrnas Unedig*

- Cyhoeddiad Llywodraeth y DU ynghylch pecyn buddsoddi ar y cyd gyda Tata Steel ym Mhort Talbot sy'n anelu at gadw'r gwaith yn gweithio a thrawsnewid i broses cynhyrchu dur mwy ecogyfeillgar. Mae hyn yn ddatblygiad allweddol i Gymru. Dylai cyfran o'r £100m a glustnodwyd ar gyfer y Bwrdd Pontio gael ei ddefnyddio i weithio mewn partneriaeth â Tata ac arbenigwyr academaidd i asesu a mapio'r effeithiau ar y gadwyn gyflenwi, a hefyd i amlinellu ardaloedd i ddatblygu sgiliau a chyflenwyr yng Nghymru gan gymryd cyfleoedd yn y trawsnewid i brosesau cynhyrchu gwyrddach.
- Mae angen i'r Bwrdd Pontio ddod â phartneriaid allweddol at ei gilydd, gydag angen i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru weithio mewn partneriaeth i sicrhau y'u defnyddir i gynllunio strategaethau a dulliau gweithredu mwy hir dymor i liniaru'r risgiau a mwyhau'r cyfleoedd yn y trawsnewid i sero net mewn gweithgynhyrchu ar gyfer y dyfodol yng Nghymru, yn cynnwys ar gyfer BBaChau. Dylai'r bwrdd gynnwys cynrychiolwyr busnesau llai a'r rheini a effeithiwyd trwy'r cadwyni cyflenwi i gyd.




fsb Federation of Small Businesses

- Dylai Adran Busnes a Masnach Llywodraeth y DU ddatblygu Cronfa Awtomatiaeth, gan gyflenwi busnesau bach â chyllid grant i awtomeiddio prosesau ble mae mynediad at lafur yn heriol. Gallai hyn gael ei dargedu tuag at sectorau penodol. I sicrhau bod busnesau bach yn hyfforddi ac yn datblygu eu staff hefyd, fel rhaganghenraid i gymhwysedd, dylai cwmnïau fod â chynllun hyfforddi yn ei le.
- Dylai Adran Busnes a Masnach Llywodraeth y DU gynnal peilot o gynllun i alluogi busnesau sy'n ymorol am "fewnoli" neu "ailfewnoli" prosesau gweithgynhyrchu i oresgyn rhwystrau a wynebant.
- Dylai Adran Diogelwch Ynni Llywodraeth y DU ostwng y trothwyon cymhwysedd i gwmnïau fod yn gymwys i wneud cais am y Gronfa Trawsnewid Ynni Diwydiannol (IETF). Dylai'r trothwy presennol ar gyfer prosiectau effeithlonrwydd ynni a datgarboneiddio gael ei leihau o £100,000 i £20,000. Dylai'r Adran ystyried gostwng y trothwyon peirianneg ac astudiaethau dichonoldeb lleiaf hefyd.

***Camau Tymor Canolig***

- Mae'r cyllid ar gyfer Banc Datblygu Cymru (DBW) a Busnes Cymru ar ôl 2025 yn dal yn ansicr. Dylai'r cyllid a'r statws yma gael ei sicrhau i roi mwy o sicrwydd i BBaChau ac i arwyddo ffocws ar ddatblygu BBaCh yn yr hir dymor.
- Ochr yn ochr â'r hyb paru ar gyfer tir ac adeiladau, dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu gwasanaeth paru cronfa ddata cyflenwyr chwiliadwy, ble gallai busnesau ganfod a / neu gael eu paru gyda chyflenwyr addas.
- Dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio data o'r gwasanaeth hwn i glustnodi anghenion parhaus a all ofyn bod datblygiad cyflenwyr yn cael ei gwrdd. Yna gall hwn glustnodi meysydd posibl ar gyfer cyllid ac arian.
- Mwy o bartneriaeth rhwng busnes ac AU i sicrhau datblygiad parhaus cyrsiau sy'n benodol fwy perthnasol gyda chymysgedd priodol o sgiliau ymarferol ac arloesi mwy perthnasol trwy gynyddu'r cynrychiolwyr o fusnesau a BBaChau er enghraifft.
- Asesu llwyddiant Cynllun Benthyciadau Effeithlonrwydd Banc Datblygu Cymru a'i raddio i fyny fel y bo angen.
- Dylai Llywodraeth y DU ddilyn yr argymhellion a amlinellwyd yn adroddiad 'Customs Clearance' yr FSB (Mawrth 2023) a dylai fabwysiadu ymagwedd 'meddwl yn fach yn gyntaf' at ddatblygu polisi tollau gan wneud masnach yn haws, rhatach a mwy atyniadol i BBaChau. Mae hyn yn cynnwys defnyddio digideiddio a sicrhau bod gan y tollau y capasiti a'r sgiliau i fynd i'r afael â'r oediadau presennol yn y broses.
- Dylai Llywodraeth Cymru gynnwys eiddo busnes mewn unrhyw gynlluniau yn y dyfodol (megis y cynllun Arbed diweddar) i gael at gymorth ar gyfer mesurau ôl-osod. Gallai Llywodraeth Cymru ystyried ehangu unrhyw gynlluniau o'r fath i eiddo annomestig, wedi'u targedu ar landlordiaid i wella effeithlonrwydd ynni. Er y byddai angen i delerau hyn fod yn wahanol i'r cynllun domestig sy'n gywir yn targedu materion fel tlodi tanwydd, gallai cymhellion megis benthyciadau cyfraddau canrannol blynyddol (APR) cost isel neu 0% gael eu hystyried i gefnogi pontio.

*Camau Tymor Hir*

- Mae angen i Lywodraeth Cymru symud yn gyflym i asesu'r seilwaith sydd ei angen yn y dyfodol ar gyfer cyfleoedd yr economi gylchol a sut y byddant yn eu darparu, yn cynnwys
  - hybiau rheoli gwastraff newydd,
  - paru deunyddiau ag anghenion sectorau.
  - cyfleoedd i sgil-gynhyrchu meithrin capasiti a galluoedd busnesau i ddarparu gwasanaethau yng Nghymru.
- Busnes Cymru a chyrff cymorth i barhau i ddatblygu cymorth cynaliadwyedd, cyngor, cyllid a chymorth, a sicrhau bod capasiti cymorth yn cyd-fynd ag amcanion ac anghenion Llywodraeth Cymru. Clustnodi sut orau i gyflawni hyn (e.e., arbenigedd tai hybiau lleol)
- Llywodraeth Cymru i ddefnyddio pob cynllun (megis benthyciadau cynaliadwyedd Banc Datblygu Cymru) i uwchsgilio meysydd sydd â mannau cyffwrdd gyda busnesau (e.e., cyfrifwyr) a/neu'n meithrin gallu ar gyfer cyngor cynaliadwyedd ac archwiliadau gwyrdd.
- Meithrin addysg, sgiliau a system sgiliau hyfforddi i gyfunioni â'r uchod a'i gefnogi
- Prif-ffrydio cymorth i weithgareddau Adnoddau Dynol busnesau bach trwy roi rhaglenni megis You and Co2
- Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael yn cael ei defnyddio i raeadru'r cymorth i gadwyni is i lawr a chwmnïau llai, a bod data i'w ddarparu ar gyfer craffu trwy Bwyllgorau'r Senedd
- Dylai Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru weithio gyda'i gilydd i asesu a gweithredu ar arloesi Cymreig penodol a phwyntiau cyfle ymchwil a datblygu i ysgogi'r galw am ac i gyflenwi economi gylchol a chyfleoedd sero net. Mae enghreifftiau'n cynnwys cyfleoedd a gynigir gan gynhyrchu trydan morlyn llanw / morglawdd.
- Dylai Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a chyrff cymorth a chyllid archwilio defnydd mwy creadigol o gyllid i gefnogi arloesi. Byddai 'cyllid ar gyfer profi' yn ddefnyddiol i sicrhau bod modd manteisio'n iawn ar beiriannau costus iawn.
- Dylent ddatblygu polisi hefyd yn mynnu bod mynediad AU at arian arloesi yn cael ei gysylltu â gofynion am gydweithrediad â BBaChau yng Nghymru. Byddai hyn yn helpu i fynd i'r afael â phroblem pot arian llai yn ogystal ag yn meithrin gwell cysylltiadau rhwng y sectorau.
- Byddai rhaid hefyd bod angen gyfochrog i ddatblygu cysylltiadau yn uwch i fyny cadwyni cyflenwi, o ran peiriannau a hyfforddiant trwy fusnesau mwy, ochr yn ochr â'r arian arloesi trwy Adnoddau Dynol, gan ymorol am ddatblygu'r ecosystem entrepreneuraidd yn ei chyfanrwydd tuag at arloesi.
- Dylai Llywodraeth y DU gyhoeddi'n gyhoeddus adolygiad o'r effaith ar lefelau Ymchwil a Datblygu a gynhelir ac effaith hynny ar BBaChau, ac ailystyried ei thoriadau i gredydau treth Ymchwil a Datblygu.
- Bod o leiaf 10 y cant o gyllideb Ymchwil a Datblygu gyffredinol y DU i'w ddyrannu i BBaChau.
- Dylai Llywodraethau'r DU a Chymru ymorol am adeiladu capasiti i sefydliadau arloesi Cymru ar gyfer y tymor hir, gyda thyfu'r gyfran hon yn ddangosydd allweddol o lwyddiant i unrhyw strategaeth 'ffyniant bro'.
- Dylai Llywodraeth Cymru adolygu maint yr arian sydd ar gael hefyd ble mae angen symiau cymharol fach-canolig o gyllid. Ymddengys fod bwlch cyllido rhwng potiau bach (£5,000) a photiau mawr (£1m). Byddai rhannu potiau sy'n fwy ar hyn o bryd yn botiau llai, a / neu sicrhau bod cyfran yn cael ei rhoi o'r neilltu ar gyfer cyllid BBaCh yn ymorol am fynd i'r afael â chanol coll ac yn helpu i ddatblygu cwmnïau llai i dyfu.



fsb Federation of Small Businesses

- Dylai Llywodraeth Cymru edrych ar greu a defnyddio corff datblygu hyd braich (megis corff 'Cymru Ryngwladol' y mae'r FSB wedi galw amdano yn ei adroddiadau blaenorol) i ddatblygu ffynonellau cyllid ychwanegol i leihau'r ddibyniaeth ar Fanc Datblygu Cymru, trwy dyfu'r cynigion buddsoddi ar draws yr amrediad llawn o adnoddau, o fanciau, i fuddsoddwyr sefydliadol, angylion buddsoddi a buddsoddwyr ecwiti preifat, i gyllido torfol.
- Mae angen bod dealltwriaeth o adeiladu rhwydweithiau fel 'proses gydfuddiannol' nid 'digwyddiad', gyda mesurau i adlewyrchu hyn. Dylai gweithredu ac ymyriad polisi fod yn gyfrwng i wasanaethu anghenion cyfochrog byrdymor BBaChau ac amcanion mwy hir dymor y Llywodraeth a rhanddeiliaid. Dylai hyn ganolbwyntio ar broses o adeiladu dealltwriaeth o anghenion ei gilydd, sydd hefyd yn cefnogi'r angen am werthusiad parhaus o'r rhagolygon i BBaChau mewn gweithgynhyrchu yng Nghymru o ran cadwyn cyflenwi, arloesi, cyllid, seilwaith, a materion cynaliadwyedd.

Byddai cymryd ymagwedd gyfannol i fynd i'r afael â'r gwahanol anghenion ar draws y llinellau amser a amlinellwyd yn y fframwaith hwn yn darparu amser a lle, gan roi hyblygrwydd y mae'i fawr angen i BBaChau i godi eu gweledigaeth uwchben y presennol uniongyrchol, yr un pryd â chodi ymwybyddiaeth rhanddeiliaid o'r pwysau uniongyrchol hynny o ran amser a chost. O'u rhoi gyda'i gilydd, mae'r camau hyn yn ffurfio'r darn canol rhwng gweledigaeth hir dymor i ymgyrraedd ati a welir mewn dogfennau strategol, a'r anghenion a'r targedau byrdymor a all ddod yn ffocws polisi a ysgytwir o bared i bost yn y stormydd economaidd presennol.

Mae'r adroddiad yn ehangu ar y materion hyn ac mae wedi'i strwythuro fel a ganlyn. Mae Pennod 1 yn amlinellu'r dull gweithredu a ddilynwyd wrth gasglu a dadansoddi'r data ar gyfer y gwaith hwn. Mae Pennod 2 yn trafod y canlyniadau o'r cyfweliadau, tra bo Pennod 3 yn defnyddio data eilaidd sydd ar gael i osod y canfyddiadau o'r cyfweliadau yn eu cyd-destun a chael argymhellion polisi. Mae Pennod 4 yn tynnu'r casgliadau hyn at ei gilydd wedyn ac yn clustnodi natur tymor byr-, canolig a hir yr argymhellion polisi hyn.



**Joanne Roberts**
Fabulous Welshcakes



fsb
Federation of Small Businesses

Pennod 1

# Cefndir A Dull Gweithredu

Ffocws yr adroddiad hwn yw deall yr heriau mewn gweithgynhyrchu yng Nghymru o bersbectif cwmnïau BBaCh, gan edrych ar y pethau sy'n gyffredin rhyngddynt a'r blaenoriaethau fel y maent yn eu gweld. Roedd arnom eisiau gweld hefyd sut oedd y rhain yn cymharu â'r safbwyntiau fel y'u nodir gan Lywodraeth Cymru a rhanddeiliaid yn y sector gweithgynhyrchu, yn arbennig prynwyr sector cyhoeddus cyflenwyr gweithgynhyrchu Cymru. Y nod oedd gweld sut oedd y safbwyntiau'n cymharu, ond hefyd sut y gallem sicrhau y gellid dod â'r safbwyntiau hynny at ei gilydd yn ymarferol, tra oeddem yn ymorol am wahanol fuddiannau uniongyrchol, at orwel cyffredin ehangach.

**Ystategau Demograffaidd Allweddol mewn Gweithgynhyrchu**

**137,400**

**Cyfanswm cyflogaeth mewn gweithgynhyrchu yn 2021** heb gynnwys yr hunangyflogedig

*(10.29% o'r cyfanswm cyflogaeth)*

**5.6%**

**yn uwch nag yn 2010** o ran cyfanswm niferoedd y cyflogedigion (130,100),

*ond yn is fel cyfran o'r cyfanswm cyflogaeth (10.33%)*

**16.1%**

**Cyfran o GVA Cymru o weithgynhyrchu yn gostwng hefyd** o 16.9% i rhwng 2010 a 2020

---

**Rhwng 2010-22, mae gweithgynhyrchu yng Nghymru wedi gweld codiad cymharol fach (5%) yng nghyfanswm nifer y mentrau yng Nghymru. Fodd bynnag, mae hyn wedi'i ddosbarthu'n anwastad.**

---

**Cwmnïau mawr**

**+15%**

**Digwyddodd y codiad cryfaf mewn cwmnïau mawr** (gyda dros 250 o gyflogedigion), yn cynyddu o fwy na 15%

**Cwmnïau canolig**

**+10%**

Gyda chwmnïau micro (1-9 o gyflogedigion) a chanolig eu maint (50-49 o gyflogedigion) **yn cynyddu o bron 10% yr un**

**Cwmnïau bach**

**-20%**

**OND** cwmnïau bach (10-49 o gyflogedigion) yn gweld **gostyngiad o bron 20%**



fsb Federation of Small Businesses

Fel y cyfryw, mae'r adroddiad hwn wedi'i seilio ar y setiau data eilaidd sydd ar gael, ac ymchwil cynradd wedi'i seilio o amgylch cyfweliadau lled-strwythuredig gyda BBaChau gweithgynhyrchu Cymru o bob rhan o'r is-sectorau gweithgynhyrchu, y gellid eu hystyried nhw i gyd yn gymharol llwyddiannus o fewn eu gweithgareddau. Digwyddodd cyfweliadau hefyd gyda rhanddeiliaid allweddol, yn cynnwys llywodraeth leol, y sector cyhoeddus, a chaffael AU, datblygu economaidd, a chyrff cynrychioliadol, o bob cwr o Gymru. Roedd y cwestiynau i gyd yn caniatáu "atebion rhydd" yn hytrach na dewis o restr wedi'i phenderfynu o flaen llaw, i ganiatáu i'r materion allweddol fel eu nodwyd gan y cyfweledigion eu hunain gael eu dwyn drwy'r broses yn organig a heb awgrymu a rhagfarn gan y cyfwelydd.

**Tabl 1: Manylion Cyfweledigion**

| Math o Sefydliad | Sector* | Lleoliad | Maint |
|---|---|---|---|
| 1. Prifysgol | Addysg | De Cymru | Mawr |
| 2. Caffael Cyhoeddus | Iechyd | Iedled Cymru | Mawr |
| 3. Caffael Cyhoeddus | Iechyd | Iedled Cymru | Mawr |
| 4. Peak Body | Gweithgynhyrchu | Iedled Cymru | Bach |
| 5. Cyngor Sir | Menter ac Adfywio | Gogledd Cymru | Mawr |
| 6. Cyngor Sir | Cymorth Busnes | Gogledd Cymru | Mawr |
| 7. BBaCh | (30) Gweithgynhyrchu offer trafnidiaeth arall | De-Ddwyrain Cymru | Bach |
| 8. BBaCh | (32) Gweithgynhyrchu arall | De-Ddwyrain Cymru | Micro |
| 9. BBaCh | (22) Gweithgynhyrchu cynhyrchion rwber a phlastig | De-Ddwyrain Cymru | Bach |
| 10. BBaCh | (24) Gweithgynhyrchu Metelau Sylfaenol | De-Ddwyrain Cymru | Bach |
| 11. BBaCh | (25) Gweithgynhyrchu cynhyrchion metel ffabrigedig, heblaw peiriannau ac offer | De-Ddwyrain Cymru | Canolig |
| 12. BBaCh | (28) Gweithgynhyrchu peiriannau ac offer N.E.C. | De-Ddwyrain Cymru | Canolig |
| 13. BBaCh | (33) Atgyweirio offer trydanol | De-Ddwyrain Cymru | Canolig |
| 14. BBaCh | (30) Gweithgynhyrchu offer trafnidiaeth arall | De-Ddwyrain Cymru | Micro |
| 15. BBaCh | (10) Gweithgynhyrchu cynhyrchion bwyd | Canolbarth Cymru | Canolig |
| 16. BBaCh | (25) Gweithgynhyrchu cynhyrchion metel ffabrigedig, heblaw peiriannau ac offer | De-Ddwyrain Cymru | Canolig |

Noder: Mae'r ffigurau mewn cromfachau yn dynodi cod SIC

Cynhaliwyd y cyfweliadau rhwng Ebrill a Mehefin 2023, a chafodd y data o'r sefydliadau hyn eu hanonymeiddio. Ychwanegir at y dadansoddiad lefel micro hwn wedyn gan ddadansoddiad ehangach, mwy lefel macro, gan ddefnyddio data eilaidd sydd ar gael, i glustnodi sut y gall y materion a godwyd yn y cyfweliadau fod yn amlygu eu hunain yn yr economi ehangach, ac o ganlyniad beth fyddai'r ymatebion a blaenoriaethau polisi mwyaf priodol. Gan ddefnyddio'r ddau bersbectif yma, caiff argymhellion polisi eu creu a'u trafod wedyn.

Fe wnaeth y cyfweliadau hyn ddarparu cyfoeth o wybodaeth, ac rydym yn ddiolchgar i'n hymatebwyr am fod yn hael gyda'u hamser ac yn ddi-flewyn-ar-dafod gyda'u dirnadaethau. Mae'n werth nodi y daethom ar draws anhawster sylweddol wrth gael darpar gyfweledigion i ymateb i geisiadau, o gymharu â throeon blaenorol. Mae hyn yn adrodd stori ynddo'i hun. Byddem yn casglu bod hyn yn adlewyrchu, i'r rheini a oedd yn methu ymateb, bod ein canfyddiadau ynghylch diffyg amser a'r angen i fynd i'r afael â myrdd o faterion a phwysau eraill yn y fan a'r lle, yn ymwneud hefyd ag eraill na wnaeth hunanddewis mewn ymateb i wahoddiadau i gyfweliad, ond hyd yn oed yn fwy felly nag i'r rheini a gynrychiolir yma. Er hynny, roedd y rheini a ymgysylltodd yn amlwg yn fwy galluog i ymateb na'r sector ehangach efallai. Mae hyn yn rhan arferol o ymchwil ansoddol, ond yn fwy llwyr efallai yn y cylch arbennig hwn o gyfweliadau ymchwil.

## Sbardunwyr Polisi Allweddol

### Yr Amgylchedd Economaidd

Mae'r **argyfwng economaidd** a gyrhaeddodd yn sgil Covid-19 ac effeithiau hyn, a'r codiadau cyflym diweddar ym mhrisiau ynni yn gwneud busnes pob dydd yn fwyfwy heriol. Mae llawer o fusnesau'n canolbwyntio ar oroesi'r storm ac yn brwydro am allu a hyblygrwydd i gynllunio at y dyfodol. Mae ffocws angenrheidiol ar gost yn golygu hefyd fod gwendidau a risgiau eraill ar draws cadwyni cyflenwi.

### Pontio i Sero Net

Mae'r pontio i sero net yn cynnig cyfleoedd hir dymor i weithgynhyrchu yng Nghymru, ond hefyd yn cynrychioli heriau mwy byrdymor i gwmnïau wrth addasu'u gweithrediadau. Mae hwn yn faes ble gallai cymorth polisi penodol Llywodraeth y DU a Chymru ac eglurder strategol yn cynllunio'r camau nesaf, cyfarwyddyd a llywio gael effaith ar ddealltwriaeth cwmnïau o sut i fwrw ymlaen orau.

### Tueddiadau Gweithgynhyrchu

Mae effeithiau negyddol hir dymor perifforoldeb economaidd a daearyddol yn parhau i effeithio ar weithgynhyrchu yng Nghymru mewn llawer o ffyrdd, yn cynnwys cyllid, caffael cyhoeddus, a seilwaith, er bod yr olaf hwn yn effeithio ar rai ardaloedd yn fwy nag eraill, gyda chanolfannau crynodref neiituol megis Gogledd-Ddwyrain Cymru ag iddynt well cysylltiadau â chanolfannau ar draws y ffin. Gostyngodd y gyfran o **GVA Cymru** o weithgynhyrchu o 16.9% i 16.1% rhwng 2010 ac 2020, gan awgrymu nad yw newidiadau yn strwythur gweithgynhyrchu Cymru, yn digwydd ran amlaf o lawer ar lefel BBaCh, wedi atal y dirywiad ym mhwysigrwydd uniongyrchol gweithgynhyrchu i economi Cymru. Yn rhannol mae hyn yn debygol o fod yn gysylltiedig â'r ffordd y mae'r cynnydd cymharol fach yng nghyfanswm y nifer o fentrau gweithgynhyrchu wedi'i dosbarthu, yn arbennig y gostyngiad mewn mentrau gweithgynhyrchu bychain sy'n gyfwerth â **"chanol coll"** o fewn y sector BBaCh ei hun[2].

### Effeithiau lluosydd gweithgynhyrchu

Mae effeithiau lluosydd yn allweddol i strategaeth economaidd, ble mae buddsoddi mewn sector neilltuol yn cael effeithiau buddiol lluosog y tu hwnt i'r buddsoddiad gwreiddiol fel mewn tyfu cyflogaeth, cadwyni cyflenwi, sgiliau ac felly ymlaen. Mae'n frawychus fod yna gydberthyniad negyddol rhwng y newidiadau strwythurol mewn gweithgynhyrchu yng Nghymru (fel y'i cynrychiolir gan newidiadau yn niferoedd y cwmnïau ym mhob sector) a lluosyddion[3], GVA a lluosyddion cyflogaeth yn benodol (h.y. mae twf wedi digwydd mewn sectorau gyda GVA a lluosyddion cyflogaeth is ac i'r gwrthwyneb). Cryfhau cadwyni cyflenwi lleol, gan ddefnyddio pwerau yn Neddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael (Cymru) 2023 fel bod gweithgynhyrchu'n effeithio mwy ar yr economi.

### The UK-EU Trade and Co-operation Agreement

Fel y dadansoddwyd gan yr FSB yn yr adroddiad 'Customs Clearance: The Road to Seamless Trade for Small Businesses', mae telerau Cytundeb Masnach a Chydweithredu'r DU-UE a phenderfyniadau Llywodraeth y DU ar feysydd polisi domestig sy'n effeithio ar fasnach mewn nwyddau wedi newid y dirwedd i gwsmeriaid ac i gyflenwyr.

Bydd unrhyw anghydfod cynyddol yn yr amgylchedd masnachu rhwng y DU a'r UE yn cael mwy o effaith ar BBaChau sydd wedi'u hymsefydlu fwy ym marchnad yr UE, megis sector gweithgynhyrchu Cymru (fel marchnad ac fel cyflenwr nwyddau rhyngol). Mae i'r amgylchedd masnachu effeithiau posibl arbennig o ddifrifol yng Nghymru.

*[2] Sef hwnnw rhwng cwmnïau micro a chanolig eu maint, maint y cwmni bach yn nghanol y grwpiau hyn a allai fod yn fwyaf problematig*

*[3] Effaith cynnydd yn nefnydd allbwn diwydiant ar y cynnydd uniongyrchol yn allbwn y cynhyrchwyr yn y diwydiant hwnnw, ond hefyd, wrth I'r cynhyrchwyr hyn gynyddu eu hallbwn, y cynnydd anuniongyrchol yn y defnydd yn eu cadwyn gyflenwi, ac yna, o ganlyniad i'r ddau, godiadau incwm aelwyd oherwydd mwy o gyflogaeth a chyflogau, cyfran o hyn yn cael ei ailwario wedyn ar gynhyrchion terfynol, fel effaith gymelledig. Gall yr effeithiau lluosedig hyn gael eu dangos wedyn yn nhermau allbwn, cyflogaeth a Gwerth Ychwanegol Gros (GVA)*



fsb Federation of Small Businesses

Pennod 2

# Welsh Manufacturing SMEs in Focus: Interview Findings

Mae'r ymchwil yn canolbwyntio ar nifer o faterion allweddol y nodwyd bod angen eu hastudio a'u dadansoddi ar gyfer ymyrraeth polisi yn sector Gweithgynhyrchu Cymru a BBaChau. Mae gweithgynhyrchu yng Nghymru wedi mynd drwy newidiadau sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf, gyda mwy o ffocws ar weithgynhyrchu mwy datblygedig, technoleg, ac arloesi[ii]. Mae gweithgynhyrchu yng Nghymru yn canolbwyntio'n fwyfwy ar **gynhyrchu** mwy o gynhyrchion gwerth uchel a / neu uwch, megis y rheini mewn cydrannau awyrofod, dyfeisiau meddygol, ac electroneg. Yn ogystal mae gweithgynhyrchwyr Cymru yn **buddsoddi yn ac yn mabwysiadu** technolegau newydd mewn awtomatiaeth, roboteg, deallusrwydd artiffisial, a'r Rhyngrwyd Pethau, i gynyddu effeithiolrwydd a chystadleurwydd.

Mae prifysgolion yn cefnogi hyn hefyd trwy fentrau a gefnogir gan Lywodraeth Cymru, megis y prosiect arweinyddiaeth ION (ble mae prifysgolion Abertawe a Bangor yn darparu rhaglen seiliedig ar ddysgu drwy brofiad ymarferol Cronfa Gymdeithasol Ewrop i helpu arweinwyr busnes i ddatrys problemau'r byd go iawn) ac Agor IP (sy'n cefnogi busnesau wrth fasnacheiddio eiddo deallusol). Ar yr un pryd, mae Prifysgol Caerdydd a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd, trwy'u haelodaeth o'r Siarter Busnesau Bach, yn gallu darparu'r cynllun Help i Dyfu a ariennir gan lywodraeth y DU i BBaChau. Mae hyn yn ychwanegol i gyfleusterau megis AMRC Cymru ym Mrychdyn (rhan o Ganolfan Ymchwil Uwch-weithgynhyrchu Prifysgol Sheffield ac aelod o'r consortiwm Catapwlt Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel o'r prif ganolfannau ymchwil gweithgynhyrchu a phrosesau a gefnogir gan Innovate UK) a'r Academi Sgiliau Uwch-weithgynhyrchu (AMSA) ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (sydd â'r nod o ddatblygu, cynnal a meithrin y sgiliau sydd eu hangen ar brentisiaid a chyflogwyr gweithgynhyrchu i ddarparu'r technolegau sy'n cadw gweithgynhyrchu Cymru yn gystadleuol).

Mae gweithgynhyrchwyr Cymru'n wynebu angen am weithwyr crefftus wrth i'r amgylchedd busnes byd-eang drawsnewid i economi wyrddach a bydd y dirwedd sgiliau'n cael ei siapio'n unol â hynny[iii]. O ran meysydd yn gysylltiedig â gwynt ar y môr a llanw (peirianneg drydanol, weldwyr, peirianneg, rheolwyr prosiect a rheolwyr datblygu cynnyrch), yr economi gylchol (peirianwyr a gwyddonwyr deunyddiau), a'r sector modurol (mecanigion, peirianwyr gwefru cerbydau trydan, i enwi ond ychydig, yn adlewyrchu enghreifftiau mewn sectorau eraill yma). Mae anawsterau wrth ddatblygu, denu, a chadw talent yn effeithio ar gystadleurwydd gweithgynhyrchwyr Cymru. Mae poblogaeth sy'n heneiddio, a thwf poblogaeth sy'n ddibynnol yn awr ar fudo i mewn, gan fod Cymru'n rhan o farchnad lafur y DU ble mae symudedd llafur yn digwydd yn bennaf o fewn, yn hytrach na rhwng rhanbarthau a gwledydd yn ffactorau allweddol hefyd[iv].



fsb Federation of Small Businesses

Mae gweithgynhyrchwyr Cymru yn gweithio gyda'i gilydd ac yn ffurfio clystyrau hefyd. Mae hyn o gymorth wrth rannu adnoddau, gwybodaeth, ac arbenigedd, ac i gydweithio ar brosiectau ymchwil a datblygu. Mae mwy o bwyslais hefyd ar gynaliadwyedd a'r economi gylchol, gan geisio lleihau gwastraff a chynyddu effeithlonrwydd adnoddau. Mae yna, fodd bynnag, densiwn yn oblygedig rhwng y pwyslais byrdymor ar greu cyfoeth a swyddi a'r nod mwy hir dymor o drawsnewid i economi fwy cylchol, gyda thwf o fewn terfynau planedol / twf arafach[v]/ neu ddatdyfiant. Mewn llawer ffordd, fe all hyn fod yn fater o ddiffinio beth ydym yn ei olygu gan dwf a sut ydym yn ei gysylltu â'r hyn a rown werth arno.[4] P'run bynnag, mae hyn yn gofyn am ddiffiniad clir, a chysylltu rhwng y nodau hir dymor a chymhellion economaidd trwy strategaeth y llywodraeth. I'r gwrthwyneb, mae cyfleoedd diwydiant gwyrdd yn bodoli ar gyfer gweithgynhyrchu yng Nghymru hefyd, ond yn aml maent yn dibynnu'n drwm ar gymorth llywodraeth y DU, nad yw'n dod weithiau (e.e. Morlyn Llanw Bae Abertawe).

Mae'r defnydd pendant presennol o'r weledigaeth yma wedi'i lapio ar hyn o bryd mewn prosiectau megis y cysyniad Porthladd Rhydd Celtaidd, sy'n anelu at ddefnyddio porthladdoedd Aberdaugleddau a Phort Talbot i greu coridor buddsoddi gwyrdd yn rhychwantu datblygiadau ynni glân ac asedau arloesi, terfynfeydd tanwydd, gorsaf ynni, peirianneg trwm a'r diwydiant dur ar draws de-orllewin Cymru. Byddai hyn hefyd yn cynnwys arnofio ynni gwynt ar y môr a chanolbwyntio ar yr economi hydrogen i greu tanwydd cynaliadwy, dur glannach, a logisteg carbon isel. Y nod yw defnyddio'r ffocws hwn i greu diwydiant gwyrdd gyda nifer sylweddol o swyddi gweithgynhyrchu newydd wedi'u sefydlu'n lleol i greu etifeddiaeth ynni adnewyddadwy gyda photensial allforio byd-eang. Mae prosiectau tebyg yn cael eu datblygu ar gyfer porthladd rhydd Ynys Môn/Anglesey i gefnogi'r datblygiadau tuag at 'Ynys Ynni'.

Mae archwilio cyfleoedd allforio newydd trwy gytundebau a phartneriaethau masnach yn rhywbeth sy'n cael ei annog gan bolisi Llywodraeth Cymru hefyd[vi]. Mae yna sefydliadau yn awr hefyd megis Manufacturing Wales, lle rhannu gwybodaeth sy'n galluogi gweithgynhyrchwyr i drafod a chynnig atebion i'w gilydd. Yn canolbwyntio'n groyw ar godi hygrededd brandiau Cymreig, y nod, yn bwysig, yw mwyhau cyfleoedd cadwyni cyflenwi ac ymgorffori gwydnwch ar gyfer y sefydliadau sy'n aelodau.

[4] *https://www.fsb.org.uk/resource-report/what-we-value.html*



## Argymhellion Polisi

At ei gilydd, mae’r tueddiadau hyn a ffocws Llywodraeth Cymru ar gefnogi gweithgynhyrchu i barhau ei bwysigrwydd fel un o sbardunwyr allweddol economi Cymru, yn pwysleisio’r angen am werthuso parhaus o’r rhagolygon i BBaChau mewn gweithgynhyrchu yng Nghymru, yn arbennig o ran cadwyni cyflenwi, arloesi, cyllid, seilwaith, a materion cynaliadwyedd.




Dangosir canlyniadau’r cyfweliadau isod, wedi’u rhannu’n nifer o is-faterion yn ymwneud ag amcanion, a chadwyni cyflenwi, arloesi, cyllid, seilwaith, a materion cynaliadwyedd. Ar gyfer pob isadran mae tabl cryno’n dangos y 3 phrif fater a nodwyd gan y cyfweliadau, i BBaChau ac i randdeiliaid ehangach, gyda’r drafodaeth ddilynol yn canolbwyntio ar y materion penodol o bwys a nodwyd ond hefyd y meysydd allweddol lle oedd cytundeb a gwahaniaeth rhwng y ddau grŵp. Mae hi’n bwysig nodi bod yr ymatebion ym mhob un o’r rhain yn rhai i gwestiynau agored yn hytrach na rhestr gaeëdig o bosibiliadau, ac felly’n adlewyrchu’r pryderon a glustnododd cwmnïau drostynt eu hunain heb eu hidlo gan ragfarn cyfwelydd.



fsb Federation of Small Businesses

## Cwmnïau

1 TWF

2 ARLOESI A RHANNU GWYBODAETH

3 RECRIWTIO
DEFNYDD TECHNOLEG

## Rhanddeiliaid

1 CYNALIADWYEDD

2 HYFFORDDIANT
ALLFORIO
(yn cynnwys delio â materion a achoswyd gan Brexit)

Mae BBaChau yn fwy tebygol o ganolbwyntio'n groyw ar dwf fel y prif nod, yn aml yn gweld arloesi (mewn amrywiol ffurfiau) fel cyfrwng ar gyfer hyn, tra'u bod yn cydnabod yr angen i recriwtio staff i hwyluso, a'r anawsterau y mae'r sefyllfa bresennol yn eu creu. Mae'r dyfyniad canlynol yn crynhoi hyn: -



fsb
Federation of Small Businesses

*"Mae gennym gynllun 3–5 blynedd i dyfu'r busnes o £5m i £8m, a fydd yn gofyn inni recriwtio 12 peiriannydd ychwanegol. Penderfynwyd hyn gan ein hadleoliad yn 2016, a barnwyd bod maint yr uned y bu inni symud iddi yn caniatáu ehangiad i £8m. Fodd bynnag, mae Brexit a Covid wedi difetha ein cynlluniau yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf, gan ein gwthio'n ôl, yn arbennig yn y 3 blynedd ddiwethaf. Roeddem wedi bod yn tyfu yn ôl 20% y flwyddyn…Cyn Brexit roeddem wedi bod yn allforio 10% o'r trosiant, wedi agor is-gwmni yng Ngwlad Pwyl, ac roeddem yn gwasanaethu Gwlad Pwyl a'r Almaen. Roeddem yn arfer bod â llinellau amser o 48 awr bob ffordd, a chost o £30. Bellach mae'n £180- 10 diwrnod o droi rownd, felly mae'r farchnad wedi diflannu. Yng Ngwlad Pwyl … rydym wedi tynnu allan o'r farchnad allforio.* ***Ar ben hynny, ym mlwyddyn gyntaf Covid collwyd 40% o'n trosiant."***

Yn gyffredinol, mae rhanddeiliaid yn rhoi llawer mwy o bwyslais ar gynaliadwyedd, gyda hyfforddiant fel hwylusydd, ond ar allforio hefyd (nad yw llawer o BBaChau yn ei bwysleisio am nad ydynt yn allforio / wedi wynebu problemau a achoswyd gan Brexit ac felly maent wedi'u darbwyllo i beidio â'i flaenoriaethu). I grynhoi, meddai un rhanddeiliad a oedd a wnelo â chefnogi BBaChau: -

*"Roedd BBaChau yn tueddu i fod ond yn dal gafael, ag angen help a gyda llai o hyfywedd. Rhaid i'w hamcanion dros yr ychydig flynyddoedd nesaf fod i gael y gweithlu iawn, delio â'r bylchau sgiliau y maen nhw'n eu hwynebu ar hyn o bryd, ac uwchsgilio'r gweithlu sydd ganddyn nhw'n barod. Mae angen iddyn nhw ddelio â chanlyniadau Brexit hefyd o ran y problemau yn ymwneud ag allforio, sy'n bryder, a ble mae arnyn nhw angen arweiniad a chefnogaeth ychwanegol.* ***Mae symud tuag at sero carbon yn nod hefyd, gydag angen i rannu arfer gorau o ran cadwyni cyflenwi a'r economi gylchol."***

Yn fwy eang, mae'r cyfweliadau'n pwysleisio'r ffocws culach presennol i BBaChau, mewn amgylchedd ble mae goroesiad byrdymor yn llai sicr nag o'r blaen. Mae dyfyniad un BBaCh yn crynhoi hyn: -

*"Mae'n rhaid imi ddod o hyd i werth 150,000 o bunnoedd o arbedion cost, dim ond i sefyll yn fy unfan, ac mae ymchwil a datblygu'n diflannu, a phan fydd eich buddsoddiad mewn pobl yn stopio, maen nhw'n dechrau diflannu. Mae hi'n araf, yn arbennig os ydych yn brwydro gwledydd eraill yn Ewrop gyda phrisiau cymharol sicr neu gyflenwad sicr. Rwyf wedi ysgrifennu llaweroedd o gynlluniau busnes eleni. Bu hi'n fwyaf anodd ceisio cydbwyso gyda thwf a buddsoddi. Gan*

*edrych ar y cymysgedd o waith a ragwelir, gyda'r holl godiadau yn yr amrywiol ddeunyddiau, codiadau yng nghost ynni, pwysau costau byw mewn perthynas â chyflogau, ardrethi busnes. Yr holl gostau nwyddau hynny, wyddoch chi, mae cost deunyddiau traul wedi mynd i fyny hefyd.* ***Felly, nid ydym ond yn brwydro un maes yn unig. Fel pob busnes arall rydym yn ceisio ei frwydro ar draws.*** *Byddwn, fe fyddwn yn codi prisiau ble gallwn, ond mae hynny'n sensitif. Felly, beth bynnag a gynlluniwch, os bydd rhywbeth yn newid yn y canol yna rydych am gymryd yr ergyd hwnnw oddi ar faint yr elw hefyd."*

Mae rhanddeiliaid â ffocws mwy hir dymor, yn fwy tebygol wedi'i ddylanwadu gan bolisi llywodraeth ynglŷn â chynaliadwyedd a sero net. Yn nodweddiadol o hyn: -

*"O'n safbwynt ni, dylai'r ffocws fod ar amcanion y llywodraeth ar gynaliadwyedd, yn ogystal ag ychwanegu gwerth cymdeithasol, a rhannu gwybodaeth fel ffyrdd o wella datblygiad a thwf BBaCh. Mae ein caffael yn ceisio hyrwyddo rhannu gwybodaeth ac i ennill dirnadaeth o'r sector, i gael gwybodaeth y tu allan i'r berthynas gaffael arferol. Bydd hyn yn wahaniaethydd gwirioneddol wrth fynd ymlaen.* ***Wrth inni brynu, rydym yn edrych felly ar werth ychwanegol yn ogystal â'r targed sefydliadol o sero net erbyn 2035, sy'n golygu bod angen inni drosoli ein cyflenwyr fwy a mwy wrth fynd ymlaen.*** *Rydym yn defnyddio ein caffael gyda BBaChau lleol hefyd i helpu i gwrdd â gofynion a dangos cefnogaeth i fusnesau lleol... Yn ychwanegol, fodd bynnag, mae'r cyflenwyr yn aml yn arbenigol iawn sy'n golygu ein bod yn dibynnu ar y BBaCh yn ychwanegu gwerth y tu allan i'r nwydd neu'r gwasanaeth cychwynnol, trwy rannu gwybodaeth arbenigol."*

At ei gilydd, fodd bynnag, (ac fel y gwelwn wedi'i fynegi fwy isod) ymddengys fod hyn yn fater o bwyslais yn hytrach nag o anghytundeb sylfaenol.



## Materion Cwsmeriaid a Chadwyni Cyflenwi: Diffyg Cyflenwyr yng Nghymru

**Tabl: Materion mwyaf pwysig, diffygion, a gofynion yn y dyfodol mewn perthynas â chadwyni cyflenwi a chwsmeriaid (3 uchaf)**

| **Materion:** | **Nifer y Cwmnïau** | **Nifer y Rhanddeiliaid** |
|---|---|---|
| Costau mewnbynnau (yn cynnwys staff a thir) | 2 | =2 |
| Diffyg cyflenwyr lleol (yng Nghymru) | 1 | 1 |
| Awtomatiaeth / TGCh | | =2 |
| Costau Brexit | 3 | |

O ran cadwyni cyflenwi mae consensws rhwng cwmnïau a rhanddeiliaid ar y diffyg cyflenwyr lleol yng Nghymru fel problem o bwys, gydag angen hwyluso datblygiad yn y maes hwn, i gynorthwyo wrth gynyddu gwydnwch gweithgynhyrchu Cymru yn ogystal ag atgyfnerthu effeithiau lluosydd. Mae enghraifft sy'n darlunio hyn yn dod gan gwmni bwyd canolig ei faint: -

*"Mae cyflenwyr yn broblem o ran costau cynyddol, ond gallwn (a rhaid inni) basio costau ymlaen, sy'n cael effaith ganlyniadol wedyn. Yn ffodus, mae costau'n dod i lawr, ond rydym yn cael y rhan fwyaf o'n deunyddiau crai o'r (tu allan i'r DU) gydag ychydig iawn o'r DU neu Gymru (oherwydd diffyg argaeledd am y pris gofynnol). Gallem gael (rhai deunyddiau crai gwerth isel) yn lleol ond rydym ond yn defnyddio niferoedd isel o'r rhain, ac maen nhw'n fwy o nwydd na dim byd arall."*



Federation of Small Businesses

Yn ogystal â chwmnïau'n cynyddu eu gweithgaredd rhwydweithio a datblygu cyflenwyr, roeddid yn gweld hefyd bod y llywodraeth â rôl yma. Nododd rhai BBaChau bod caffael cyhoeddus yn berthnasol yma o ran cryfhau gofynion caffael lleol a chynyddu eu ffocws ar werth cyhoeddus yn fwy cyfannol yn hytrach na dim ond cost is.

*"Yn y gorffennol ansawdd oedd flaenaf gennym. Nid ni oedd y rhataf, ond roeddem yn canolbwyntio ar y cwsmer i raddau helaeth iawn. Ar hyn o bryd mae a wnelo popeth â chost. ...Mae angen i Lywodraeth Cymru wneud yn siŵr fod arian Cymru yn aros yng Nghymru. Mae'r gadwyn gyflenwi yn gwaedu'r economi- gydag arian yn mynd i gystadleuwyr."*

Mae BBaChau (a rhanddeiliaid i raddau llai) yn pwysleisio bod costau mewnbynnau o bwys mawr hefyd, y meysydd a glustnodwyd, deunyddiau crai, cydrannau, ynni, tir, a chostau staffio, yn gysylltiedig â sgiliau, a chynaliadwyedd a drafodir ymhellach isod.

'Doedd dim consensws ynghylch problemau cwsmeriaid, er bod nifer o gwmnïau wedi nodi bod costau'n gysylltiedig â Brexit wedi cael effaith negyddol ar eu marchnadoedd allforio (naill ai'n lleihau eu gweithgareddau yn Ewrop yn sylweddol neu'n eu dileu'n llwyr yn y maes hwn), roedd un cwmni yn dod o hyd i gyfleoedd cadwyn gyflenwi hefyd i gymryd lle cyflenwyr yn yr UE oherwydd yr anawsterau masnacha yr oedd y trefniant masnachu ôl-Brexit wedi'i greu.

Yn gyffredinol, fodd bynnag, gellid gweld yr anawsterau a achoswyd gan Brexit fel rhan o'r gyfres ehangach o broblemau, nid yn lleiaf y cynnydd yn y pwyslais ar bris a chostau a gafwyd trwy amseroedd danfon hirach:-

*"I gwsmeriaid, yn Ewrop mae Brexit yn broblem. Mae wedi dod yn fwy cymhleth, ac mae prisio'n fwy o broblem yn awr, am nad ydym mor gystadleuol. Mae ar ein cwsmeriaid eisiau cynnyrch cystadleuol ei bris i symud iddo, felly mae angen inni gymryd cost allan o'r cynnig. Yn lle hynny, rydym wedi colli cyfran o'r farchnad oherwydd y costau ychwanegol a chymhlethdod oediadau cludo ar long. O ganlyniad, maen nhw wedi dewis mynd at ddewis arall a gyrchir yn lleol, yn awr ei fod yn cymryd 10+ diwrnod, nid 3 diwrnod i ddanfon ar ôl archeb. Mae ein gwerthiannau wedi haneru yn Ewrop, er bod Covid wedi effeithio ar hyn hefyd."*

Mae i'r Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael (2023) newydd y potensial i ddarparu rhai liferi i rannu risg ar draws cadwyni cyflenwi ac felly lywio'r dadansoddiad o risg oddi wrth ffocws ar gost yn unig, ond bydd hyn yn gofyn am adeiladu cymorth o bob rhan o'r gadwyn gyflenwi o'r brig i lawr a'r gwaelod i fyny. Mae moddion hefyd trwy ba rai y gallwn wneud y cysylltiadau a'r rhwydweithiau fel bod gwybodaeth am gyflenwyr yn cael ei rhannu trwy fapio a rhyngwyneb i ganiatáu i BBaChau wneud hynny.

## Argymhellion Polisi

- Dylai Llywodraeth Cymru edrych ar greu a defnyddio corff datblygu hyd braich (megis corff 'Cymru Ryngwladol' y mae'r FSB wedi galw amdano yn ei adroddiadau blaenorol) i ddatblygu ffynonellau cyllid ychwanegol i leihau'r ddibyniaeth ar Fanc Datblygu Cymru (DBW), trwy dyfu'r cynigion buddsoddi ar draws yr amrediad llawn o ffynonellau, o fanciau, i fuddsoddwyr sefydliadol ac angylion buddsoddi a buddsoddwyr ecwiti preifat, i gyllido torfol.
- Dylai Llywodraeth y DU ddilyn yr argymhellion a amlinellwyd yn adroddiad 'Customs Clearance' yr FSB (Mawrth 2023) a dylai fabwysiadu ymagwedd 'meddwl yn fach yn gyntaf' at ddatblygu polisi tollau gan wneud masnachu yn haws, rhatach ac yn fwy atyniadol i BBaChau. Mae hyn yn cynnwys defnydd o ddigideiddio a sicrhau bod gan y tollau gapasiti a sgiliau i fynd i'r afael â'r oedi presennol yn y broses.
- Dylai Llywodraeth Cymru archwilio datblygu hyb sgiliau a hyfforddiant "math canlyn merch" gyda pha un y gallai busnesau ryngweithio i ganfod cyrsiau sgiliau a hyfforddiant addas a chael eu paru â'r rheini sydd ar gael yn barod trwy'r llywodraeth, Addysg Bellach (AB) ac Addysg Uwch (AU).
- Llywodraeth y DU yn cyhoeddi pecyn buddsoddi ar y cyd gyda Tata Steel ym Mhorth Talbot sy'n anelu at gadw'r gwaith ar fynd a phontio i broses cynhyrchu dur mwy ecogyfeillgar. Mae hyn yn ddatblygiad allweddol i Gymru. Dylid defnyddio cyfran o'r £100miliwn a glustnodwyd ar gyfer y Bwrdd Pontio i weithio mewn partneriaeth â Tata ac arbenigwyr academaidd i asesu a mapio'r effeithiau cadwyni cyflenwi, ac i amlinellu meysydd hefyd i ddatblygu sgiliau a chyflenwyr yng Nghymru gan gymryd cyfleoedd yn y pontio i broses gynhyrchu wyrddach.
- Mae angen i'r Bwrdd Pontio ddod â phartneriaid allweddol at ei gilydd, gydag angen i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru weithio mewn partneriaeth i sicrhau y'i defnyddir i gynllunio strategaethau a dulliau gweithredu mwy hir dymor i liniaru'r risgiau a mwyhau'r cyfleoedd yn y pontio i sero net mewn gweithgynhyrchu ar gyfer y dyfodol yng Nghymru, yn cynnwys ar gyfer BBaChau. Dylai'r Bwrdd gynnwys cynrychiolwyr busnesau llai a'r rheini a effeithir trwy'r cadwyni cyflenwi i gyd.





fsb Federation of Small Businesses

## ‘Ailfewnoli’ Prosesau Gweithgynhyrchu

Ym mis Awst 2023 cyhoeddodd yr FSB adroddiad ‘The Tech Tonic’ ar arloesi a busnesau bach, yn cynnwys arolwg cynhwysfawr o BBaChau ar y materion perthnasol. Roedd yr adroddiad yn cynnwys nifer o argymhellion ar fynd i’r afael â rhwystrau a chymhellion i wella prosesau gweithgynhyrchu.[5]

Yn ystod y pandemig ac ansicrwydd yn gysylltiedig â chadwyni cyflenwi byd-eang, gwelsom fwy o fusnesau’n symud eu cadwyn cyflenwi gweithgynhyrchu yn ôl i’r DU. Dylai’r Llywodraeth weithio gydag amrediad amrywiol o fusnesau a fyddai’n hoffi mewnoli / ailfewnoli eu prosesau gweithgynhyrchu, nodi’r rhwystrau sy’n eu hatal rhag gwneud hynny a beth allai gwneuthurwyr polisi ei wneud i’w galluogi  i ddod â’u prosesau gweithgynhyrchu i’r DU, a Chymru.

### Argymhelliad Polisi:

- Dylai Adran Busnes a Masnach Llywodraeth y DU gynnal cynllun peilot i alluogi busnesau sy’n gobeithio “mewnoli” neu “ailfewnoli”prosesau gweithgynhyrchu i oresgyn rhwystrau a wynebant.

## Sgiliau

**Tabl: Materion mwyaf pwysig, diffygion, a gofynion yn y dyfodol mewn perthynas â sgiliau ac arloesi (3 uchaf)**

| Materion: Sgiliau | Cwmnïau | Rhanddeiliaid |
|---|---|---|
| Dwyn staff hyfforddedig (yn cynnwys gwybodaeth a gollwyd) | | = 1 |
| Diffyg gweithwyr crefftus (recriwtio) | = 2 | = 1 |
| Sgiliau caffael | | = 1 |
| Angen hyfforddi | 1 | |
| Angen am strategaeth ddiwydiannol ar gyfer sgiliau | = 2 | |

O ran sgiliau, roedd consensws ynghylch difrifoldeb y sefyllfa, ond gwahanol strategaethau’n cael eu defnyddio. Cafodd y diffyg staff crefftus, gweithgareddau dwyn gan gwmnïau cystadleuol, a’r rheidrwydd (ond hefyd yr anhawster yn amodau presennol y farchnad) i dalu mwy i staff i gadw staff i gyd eu crybwyll gan BBaChau a rhanddeiliaid, gyda mwy o hyfforddiant mewnol yn ateb mwyaf poblogaidd i BBaChau.

*[5] For the full report and recommendations, see https://www.fsb.org.uk/resource-report/the-tech-tonic.html*



Federation of Small Businesses

*"Mae yna ddiffyg yn y farchnad swyddi ynglŷn â gweithwyr crefftus, ac os oes yna ymgeisydd wedi hen ymsefydlu, maen nhw'n mynnu cyflogau uwch. Felly, mae'r (sefydliad) yn cynnig cyflog uwch i weithwyr gyda fawr ddim profiad. I wneud iawn am y diffyg hwn, (mae'r sefydliad) wedi darparu hyfforddiant yn fewnol i weithwyr newydd y sefydliad. Hefyd, mae'r tîm craidd o fewn y cwmni yn gymwysedig yn seiliedig ar brofiad, nid yn seiliedig ar hyfforddiant a datblygiad."*

A

*"Y brif broblem yw bod sgiliau rheoli ac arwain pobl ar goll o'r haen nesaf o reolwyr i lawr. Mae'r cwmni'n ceisio datblygu eu rhai eu hunain, ond nid oes gan y Rheolwr-Gyfarwyddwr yr amser i hyfforddi pobl ac nid oes unlle i anfon y bobl hyn. Yn y gorffennol byddai wedi bod cwmnïau mawr gyda niferoedd mawr o brentisiaid a lleoliadau hyfforddi rheolwyr. Nid yw'r cwmnïau hyn yn bodoli bellach, felly er bod hyfforddiant arweinyddiaeth lefel uchel ar gael, mae hyfforddiant ar y lefel nesaf i lawr yn eisiau. O ganlyniad, mae cynllunio ar gyfer olyniaeth yn broblem fawr hefyd gan nad yw'r sgiliau na'r profiad yno."*

Roedd hyn yn tueddu i fod ar y lefel gyffredinol yn hytrach na sgiliau penodol, gyda rhanddeiliaid yn nodi meysydd penodol arweinyddiaeth, cynaliadwyedd, a chaffael yn allweddol i ddatblygiad BBaCh.

*"Mae'r prif ddiffyg yr ydym yn ei ganfod yn nhermau ymwybyddiaeth o garbon a llythrennedd carbon, problem sy'n ddiamau'n ehangach na dim ond BBaChau. Mae ein huchelgeisiau datgarboneiddio yn golygu bod angen inni wybod o ble daw deunyddiau, ac i'r wybodaeth ddiferu i lawr i BBaChau o'n cyflenwyr mwy i ychwanegu at fwy o ddealltwriaeth a'r angen am uwchsgilio. O ran arloesi mae llawer yn digwydd yn barod, ond mae angen inni ddod o hyd i ffyrdd i annog mwy, yn arbennig o ran datrys problemau arloesi tynnu[6] yn hytrach na bod gan y cwmni gynnyrch / newyddbeth gwych y mae arnynt eisiau ei wthio[7]."*

[6] *Innovation solutions driven by customer identified needs / problems*

[7] *Innovation solutions driven by technological solutions driven by firms supplying customers.*



fsb Federation of Small Businesses

Eto, roedd hyn fel petai'n pwyleisio ffocws mwy uniongyrchol, byrdymor i lawer o'r BBaChau, yn symptomatig o ansicrwydd a phwysau presennol y farchnad, gyda'r rhanddeiliaid yn pwysleisio setiau sgiliau yn fwy tebygol o ddwyn ffrwyth yn y tymor hir.

Mynegodd rhai y farn hefyd nad oeddid yn canolbwyntio digon ar sgiliau peirianneg mwy ymarferol mewn prifysgolion mwy traddodiadol, gan arwain at raddedigion sy'n "hedfan y ddesg" yn hytrach na rhai a oedd â diddordeb mewn "hedfan y sgriwdreifar", yn cael ei amgyffred fel rhan o ddiffyg parch ehangach at weithgynhyrchu yn gymharol â'r sector gwasanaethau.

*"Mae natur ein busnes yn golygu bod Brexit wedi achosi inni golli mynediad at bersonél yr UE. Mae hyn yn broblem gan nad yw system addysg y DU at ei gilydd ddim yn ymateb yn dda i anghenion diwydiant, ac mae'r prifysgolion hŷn yn tueddu i fod yn llai ymarferol. Mae cyn-golegau polytechnig yn well. Yn Ewrop, mae mwy o integreiddio mewn addysg ar bob lefel, ac mae gan brifysgolion Ffrainc fwy o agwedd ymarferol yn eu haddysgu, ac yn yr Almaen fe'ch canmolir fel rhywun â gradd peirianneg... does gan y DU ddim y meddylfryd a'r set sgiliau yma. Mae angen annog myfyrwyr i ymroi i sgiliau ymarferol, llai o ffocws cost isel, ticio bocsys yr Adran Addysg. Mae buddsoddi yn hyn yn y DU yn brin, gydag angen am syniadau a chariad at wneud pethau sy'n drawsffurfiadol. Mae'r DU yn tueddu i ganolbwyntio ar y "ddesg" ..., ac mae angen bod meddylfryd amldasgio (sy'n bodoli yn Ewrop), ... yn ogystal â buddsoddi yn y seilwaith, staff addysgu, a DEUNYDDIAU sydd eu hangen i AB ac AU gyflenwi'r sgiliau gofynnol. Mae rhai deunyddiau, a oedd yn arfer costio £300, yn costio £1300 yn awr oherwydd anawsterau a achoswyd gan Brexit".*

## Economi a Arweinir gan Sgiliau i Gymru: Tyfu BBaChau trwy Ddatblygu Sgiliau

Ym mis Tachwedd 2023 rhyddhaodd FSB Cymru adroddiad ar sgiliau a'r economi BBaCh, 'Economi a Arweinir gan Sgiliau i Gymru: Tyfu BBaChau trwy Ddatblygu Sgiliau'[8]

Er nad gweithgynhyrchu oedd unig ffocws yr adroddiad sgiliau, o'r 30 o fusnesau a gyfwelwyd ar sgiliau, roedd 8 o'r cyfweledigion o'r sector Gweithgynhyrchu neu Beirianneg.

Yn amlwg bydd twf o fewn gweithgynhyrchu, datblygiad cyflenwyr yn y dyfodol, a phontio i sero net yn gofyn am y sgiliau sydd eu hangen i BBaChau gael at a manteisio ar y cyfleoedd presennol a chyfleoedd yn y dyfodol, ac mae'n adroddiad Sgiliau yn nodi costau cyfle system yn y DU nad yw'r paru anghenion sgiliau

Gall canfyddiadau'r adroddiad hwn ar weithgynhyrchu BBaChau gael eu hystyried ochr yn ochr a'u gwella gan ffocws thematig adroddiad FSB Cymru 'Economi a Arweinir gan Sgiliau', a barn cyfweledigion ar anghenion sgiliau i'r ddau adroddiad gael eu paru er mwyn darparu sylfaen dystiolaeth ehangach.

*[8] Ll ap Gareth, E Crowley, K Marshall, B Willmott 'A Skills-Led Economy for Wales: Growing SMEs through Skills Development' (FSB & CIPD: Nov 2023)*



fsb Federation of Small Businesses

## Canfyddiadau Allweddol Economi a Arweinir gan Sgiliau i Gymru

Mae ymchwil yr OECD yn gweld y gallai'r DU elwa o gynnydd cynhyrchiant o 5% petai lefel y camgymhariad sgiliau'n cael ei leihau i lefelau arfer gorau'r OECD. Er nad oes llawer o ysgogiadau datblygu economaidd a thwf yn eistedd gyda Llywodraeth Cymru, mae'r maes hwn wedi'i ddatganoli i raddau helaeth, ac felly dylai ddarparu blaenoriaeth economaidd glir a chael ei ddatblygu fel cenhadaeth i Lywodraeth Cymru fynd i'r afael ag ef ar sail drawslywodraethol.

Mae busnesau bach yng Nghymru yn ymgodymu ar hyn o bryd â chael gafael ar staff digon medrus tra'u bod hefyd yn wynebu'r her o gamgymhariad ymddangosiadol cynyddol rhwng y sgiliau yn y system addysg a'r rheini y mae ar fusnesau eu hangen.

Mae'r dilema strwythurol yma'n codi o gyfuniad o ffactorau, yn cynnwys diffyg rhagwelediad wrth ragweld anghenion sgiliau a methiant i addasu addysg a hyfforddiant galwedigaethol yn ddigonol i fynd i'r afael ag anghenion datblygiadol y farchnad lafur.

Mae hyn yn gofyn am gynghrair fwy cadarn rhwng meysydd addysg a hyfforddiant, a'r rhanddeiliaid o fewn y farchnad lafur, gyda phwyslais arbennig ar BBaChau. Mae'r ymdrech cydweithredol yma'n hanfodol ar gyfer gwella cysoni sgiliau gyda galwadau'r farchnad lafur sy'n newid yn gyflym.

Mae angen ymateb polisi mwy cydgysylltiedig ar lefel leol hefyd, y mae'i bwysigrwydd yn arbennig o berthnasol yn achos BBaChau, sy'n llawer mwy tebygol o wasanaethu marchnadoedd lleol ac y mae'n rhaid iddynt dynnu ar gyflenwad lleol o sgiliau.

Mae dibyniaeth BBaChau ar gysylltiadau anffurfiol ac ad-hoc ar draws sefydliadau addysgol yn golygu bod gan BBaChau ffyrdd i siapio'r sgiliau sydd eu hangen arnynt ar sail ad-hoc tameidiog a bratiog. Dylid mynd i'r afael â hyn trwy

- sicrhau carfan ehangach o BBaChau ar fyrddau a fforymau gan adrannau AU ac AB i helpu i siapio addysg a chyrsiau sgiliau i ffitio anghenion lleol, gan ddarparu mwy o lwybrau posibl at gyflogaeth yr un pryd ag adeiladu piblinell ar gyfer caffael sgiliau i gwmnïau lleol.
- dylai AB ac AU ddatblygu strategaethau clir i hwyluso cysylltiadau ac i gyrraedd allan at fusnesau ble maent yn yr ardal leol. Dylai'r rhain gael eu gwneud mewn partneriaeth ag Awdurdodau Lleol i ddarparu rhwydwaith cryf y gellir ei ddefnyddio at anghenion busnes a sgiliau ehangach a darparu dull partneriaeth lleol.
- bydd tyfu ymgysylltiad BBaCh ymhlith busnesau gyda'r system sgiliau yn gofyn am gamau clir a gaiff eu cynnal dros y tymor hir.

Rhaid i'r strategaeth ar gyfer twf a arweinir gan sgiliau, wedi'i haddasu ar gyfer BBaChau, fod wedi'i seilio o amgylch y nod o wneud mynediad at sgiliau yn haws, o fewn nod cymorth i fusnesau ehangach o greu mwy o amser a lle – neu hyblygrwydd – i fusnesau gymryd cyfleoedd, yn cynnwys yn arbennig wrth ddatblygu sgiliau.

Rhaid i'r systemau cymorth i fusnesau a sgiliau weithio gyda'i gilydd mewn ffordd gyfannol i sicrhau y ceir y buddion mwyaf i unigolion, cwmnïau a rhanddeiliaid o greu ecosystem sgiliau. Yn hollbwysig, mae angen i wasanaethau cymorth i fusnesau fod yn hyblyg, yn bwrpasol, ac yn hygyrch ac iddynt ddarparu amrywiaeth o gymorth trwy gamau dechrau busnes a thwf.

Byddai dull Cenhadaeth yn ymorol wedyn am addasu ein sefydliadau, ffyrdd o weithio, targedau a mesurau, a rhwymedigaethau contractio a phrosesau caffael tuag at adeiladu'r nod hwnnw.

### Canfyddiadau ar Weithgynhyrchwyr mewn ‘Economi a Arweinir gan Sgiliau i Gymru’

Roedd gweithgynhyrchwyr yn fwy tebygol na sectorau eraill o fod wedi’u cysylltu â sgiliau ac addysg trwy brentisiaethau a lleoliadau, er bod llawer wedi canfod hefyd (yn arbennig cwmnïau sydd â lleoliad mwy gwledig) bod y bylchau’n golygu mai’u ffyrdd o ennill sgiliau oedd eu tyfu o’r tu mewn (neu ‘dyfu eu rhai eu hunain’ fel y dywedodd un).

Mae’r dull hwn, er yn dangos arloesedd a hyfforddi eu hunain yn y swydd fel cwmnïau, â chyfyngiadau. Ni all hyn fynd i’r afael â swyddi tra medrus allweddol (e.e. technegwyr) ac felly mae’n gofyn am brosesau recriwtio ehangach sy’n gallu bod yn heriol, costus ac yn aflwyddiannus yn aml. Roedd ar lawer eisiau recriwtio’n fwy lleol, ond yn cael bod yna ddiffyg ymgeiswyr. Yr ymateb gan gwmnïau o reidrwydd yw ymatebion ‘gweithio o gwmpas’ i system sy’n rhy anghyson ac nad yw’n darparu ar gyfer y biblinell a’r ymatebolrwydd i sgiliau sydd eu hangen.

Ar ben hynny, roedd y diffyg piblinell gyson a dibynadwy yma o sgiliau yn golygu bod cwmnïau BBaCh yn arbennig o fregus os yw rhywun yn gadael. Awgrymwyd yn aml hefyd fod y system yn gwasanaethu cwmnïau mwy, a allai gael gwell dewisiadau o’r gronfa o dalent sydd ar gael, yn well, gan adael BBaChau yn fwy bregus.

### Argymhellion Polisi

- Dylai Llywodraeth Cymru archwilio datblygu hyb sgiliau a hyfforddiant “math canlyn merch” y gallai busnesau ryngweithio ag ef i glustnodi cyrsiau sgiliau a hyfforddiant addas a chael eu paru â’r rheini sydd ar gael yn barod trwy’r llywodraeth, AB ac AU
- Dylai adrannau’r Economi a Sgiliau ac unrhyw randdeiliaid priodol ddefnyddio data trwy’r hyb hwn i glustnodi’r anghenion presennol am gyrsiau byr i lywio ymateb cyflym gan y sectorau AB ac AU, yn cael eu cefnogi gan y llywodraeth.
- Dylai Llywodraeth Cymru glustnodi ble dylai hwn eistedd, a pha un a fyddai sefydliad sydd eisoes yn mapio cadwyni cyflenwi mewn gweithgynhyrchu, megis Manufacturing Wales, yn lle synhwyrol i ddatblygu a chynnal yr hyb. Fel dewis arall, gellid ei gynnwys yn Busnes Cymru fel rhan o siop un alwad cymorth busnes Cymru. Dylai manteision ac anfanteision y naill a’r llall gael eu dadansoddi’n unol â hynny. Dylai Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru weithio gyda’i gilydd i ddefnyddio liferi llywodraeth sydd ar gael yn cynnwys cronfa ardollau Prentisiaethau Gradd, a defnydd caffael cyhoeddus i hyrwyddo sgiliau a gweithgareddau hyfforddi.

## Arloesi: Yn Adweithiol, yn Gyfyngedig i Gwsmeriaid, yn Canolbwyntio ar Gost, ac ag angen Cymorth

**Mae'r FSB yn categoreiddio arloesi yn bedwar gwahanol categori:**

- **Datblygu cynhyrchion newydd**
- **Gwella cynhyrchion yn sylweddol**
- **Cyflwyno prosesau gweithgynhyrchu newydd neu wedi'u gwella'n sylweddol**
- **Cyflwyno prosesau mewnol newydd neu wedi'u gwella'n sylweddol ac yn/neu'n wynebu cwsmeriaid**

**Tabl: Materion mwyaf pwysig, diffygion, a gofynion yn y dyfodol mewn perthynas ag arloesi (3 Uchaf)**

| Materion: Arloesi | Nifer y Cwmnïau | Nifer y Rhanddeiliaid |
|---|---|---|
| Arweinir gan y cwsmer; yn galw am arloesi tynnu fel pwynt gwerthu unigryw (USP) allweddol | = 1 | = 1 |
| Diffyg buddsoddi gan gwsmeriaid yn yr arloesi diweddaraf (yn cynnwys ffatrïoedd call a synwyryddion) | | = 1 |
| Diffyg cyllid ar gyfer arloesi gan BBaCh (yn cynnwys anawsterau'n cael cyllid grant oherwydd croes-sybsideiddio ymchwil prifysgolion a achoswyd gan Brexit) | = 1 | |
| Polisi llywodraeth mwy cefnogol | = 1 | = 1 |

Canfu adroddiad 'The Tech Tonic'[vii] yr FSB fod cyfartaledd cost cyflwyno newyddbethau i'r broses weithgynhyrchu ymhlith y rheini a arolygwyd yn £36,495, a oedd yn llawer mwy drud nag aroloesi arall. O ganlyniad, mae'r newyddbethau hyn yn holl bwysig i gadw i fyny â'r farchnad mewn gweithgynhyrchu, ond mae'r rheini sy'n ystyried newidiadau mawr, arloesol i brosesau gweithgynhyrchu yn llawer mwy tebygol nag eraill o glustnodi cost fel rhwystr nag y cafwyd mewn sectorau eraill.

Roedd y drafodaeth ynghylch arloesi yn llawer llai amlwg nag ar gyfer sgiliau, yn rhannol gan ei fod yn gysyniad ehangach pan ddaw hi'n ddefnydd ymarferol cwmnïau. Mae gweithgareddau arloesi'r BBaCh yn tueddu i fod yn adweithiol, yn cael eu harwain gan y cwsmer, tyniad galw ei natur.

*"O ran arloesi i ni mae hyn wedi'i ganolbwyntio'n gynyddrannol nid yn radical. Mae cwsmeriaid yn dod atom, gyda'n cynhyrchion yn gydran ac nid y cyfan ar gyfer cynhyrchion ein cwsmeriaid. Mae hyn yn golygu bod ein harloesi yn cael ei yrru gan alw, gyda'n cwsmeriaid yn dweud wrthym beth yw'r tueddiadau. Felly, rydym yn gwrando ar y cwsmeriaid a bod yn adweithiol, ond mae angen inni fod yn fwy manwl gan fod gan y cwsmeriaid ofynion penodol iawn."*

A

*“Yr hen reol 80:20 ydi hi, iawn. Mae 80% o’n cyfaint yn dod gan 20% o’n cwsmeriaid. Felly, trwy weithio gydag 20% o’n cwsmeriaid a deall eu strategaethau, ac yna weithio gyda nhw mewn ffordd gydweithredol, o newyddbeth cynnyrch ac o newyddbeth proses, gallem gyfunioni ein harbenigedd wedyn a gwella’r wybodaeth honno ymhellach. Ar blastigau, alwminiwm, dur, pa bynnag ddeunydd, mae’n rhaid inni ddod yn agosach felly dyna’r rheswm ein bod yn treulio 8% o’n trosiant ar ymchwil a datblygu. Ceisio gweithio mewn llawer mwy o gydweithrediad gyda’n cwsmeriaid a defnyddio ein cwsmeriaid i yrru nhw yn gyrru’r newid, ac yna rydym yn gyrru ateb y peiriannydd i gyflawni hynny.”*

Hyd yn oed ble’r oeddynt yn canolbwyntio’n fwy rhagweithiol ar gynaliadwyedd, roedd pwysigrwydd yn cael ei roi ar leihau costau hefyd: -

*“Ar gyfer arloesi (proses) rydym wedi cael cymorth hefyd gan Lywodraeth Cymru, ble daeth tîm i mewn i edrych, ac fe wnaethom recriwtio rheolwr cynhyrchu a gyflwynodd dechnegau gweithgynhyrchu digidol (gan ein huwchraddio o analog i ddigidol) gyda llawer mwy o ddefnydd o offer ar-lein sy’n fwy effeithlon ac a gynyddodd (dyblu) ein gallu cynhyrchu. O ran arloesi yr her fu dod o hyd i gyflenwyr. O ran cydrannau a’r (cynnyrch terfynol) rydym yn edrych ar y methiannau yn y diwydiant ac yn ymorol am wella trwy wneud y (cynnyrch) yn ysgafnach, y cynhyrchu’n fwy effeithlon, a’r cynnyrch yn fwy addas i gwsmeriaid. Er enghraifft, fe wnaethom lwyddo i (leihau’r deunyddiau a ddefnyddid yn un rhan o’r cynnyrch), sydd wedi gwneud gwelliant aruthrol mewn cynaliadwyedd, gan wneud y cynnyrch yn ysgafnach a rhatach a’r cynhyrchu’n fwy effeithlon. Rydym wedi rhoi cynnig ar alwminiwm 25% eildro hefyd, sydd wedi profi’n gryfach nag wedi’i wneud o’r newydd, gan olygu y gallwn leihau’r maint o ddeunydd a ddefnyddir, a’i wneud yn rhatach hefyd”.*

Roedd y diffyg buddsoddiad gan gwsmeriaid yn y newyddbethau diweddaraf yn cael ei weld yn rhwystr gan rai hefyd.

*“Roedd yna ddarn o beiriant y gwnaethom ei atgyweirio ble’r oedd y llawlyfr oedd gennym i’w ddefnyddio yn 50 mlwydd oed, gan nad oedd arnynt eisiau gorfod adnewyddu darn o git gwerth sawl miliwn o bunnoedd oherwydd mater atgyweirio bach. Rydym hyd yn oed wedi cael rhai cwmnïau’n gofyn am ein cyfarpar i’w roi yn eu hamgueddfa! Mae hyn yn rhan o broblem ehangach yn niwydiant y DU, nad yw amnewid cyfalaf mor gyflym ag y dylai fod. O ran ein harloesi, mae gennym 2 beiriannydd sy’n datblygu rigiau profi, i efelychu ar gyfer darnau a systemau. Y llynedd bu inni wario £125,000 ar ymchwil a datblygu ar rigiau profi. Mae’r arloesi i gyd yn fewnol. Cawsom sgyrsiau gyda Phrifysgol ychydig flynyddoedd yn ôl, ond roedd arnynt eisiau creu peiriant newydd nid creu system i brofi’r peiriant hwnnw. Byddem wrth ein bodd yn gweithio gyda sefydliad academaidd ar ein risgiau profi, gan fod ein busnes yn cadw pethau ar fynd”.*

Roedd mynediad at gyllid i arloesi yn broblem i nifer o fusnesau:

*“O ran arloesi, mae’r cyllid yn deddfu’r hyn yr ydym yn gallu ei wneud. Mae hyn dan arolwg cyson, gan ofyn i ni’n hunain beth sydd arnom eisiau ei wneud, pa gynhyrchion na allwn ni eu gwneud, ayb. Felly, os prynwn ni fath arbennig o argraffydd i greu mwy o gwsmeriaid, mae angen inni edrych ar ein strwythurau a phroblemau yn y gadwyn gyflenwi cyn ceisio cael cwsmer masnachol, a allai hoffi ein prosesau ond sy’n dweud wrthym wedyn ein bod yn dal yn rhy ddrud, sy’n golygu bod angen inni addasu’r broses wedyn i leihau costau a defnyddio’r peiriannau. Rydym wedi dod â llinell (gynhyrchu) newydd i mewn hefyd, ond dim ond am ein bod yn gwybod ein bod â’i hangen i gymryd lle hen un oherwydd bod y sawl oedd yn ei rhedeg (a’i hatgyweirio) yn agos at ymddeol, a oedd yn ein gwneud yn fregus.”*



Federation of Small Businesses

Roedd dirnadaethau i rai hefyd oherwydd bod cyllid Brexit a allai fod wedi mynd i BBaChau yn mynd i fusnesau mwy a phrifysgolion i wneud iawn am gyllid UE a gollwyd.

*“O ran arloesi, mae yna angen am (symiau cymharol fach o) arian, ond mae’r broses grantiau yn gymhleth iawn, yn mynd ag amser ac yn llafurus. Mae’n cael ei farnu’n aml gan bobl nad ydynt yn adnabod y diwydiant, ac rwyf yn cael argraff fod arian wedi’i ddyrannu’n barod. Mae cwmnïau mawr yn cael y mwyafrif llethol o arian y llywodraeth oherwydd Brexit, i’w cadw yn y DU, neu mae’n mynd i brifysgolion i gyflenwi’r cyllid a gollwyd oherwydd Brexit, sy’n golygu bod cwmnïau bach ar eu colled.”*



## Argymhellion Polisi

- Dylai Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a chyrff cymorth a chyllido archwilio defnydd mwy creadigol o gyllid i gefnogi arloesi. Byddai ‘cyllid ar gyfer profi’ yn ddefnyddiol i sicrhau y gellir manteisio’n iawn ar beiriannau drud iawn.
- Dylent ddatblygu polisi hefyd yn mynnu bod mynediad AU at arian arloesi wedi’i gysylltu â gofynion i gydweithredu gyda BBaChau yng Nghymru. Byddai hyn yn helpu i fynd i’r afael â phroblem pot arian llai yn ogystal ag yn meithrin cysylltiadau gwell rhwng y sectorau.
- Byddai rhaid hefyd bod angen cyfochrog i ddatblygu cysylltiadau yn uwch i fyny cadwyni cyflenwi, o ran peiriannau a hyfforddiant trwy fusnesau mwy ochr yn ochr â’r arian arloesi trwy Adnoddau Dynol, gan ymorol am ddatblygu’r ecosystem entrepreneuraidd yn ei chyfanrwydd tuag at arloesi.



fsb
Federation of Small Businesses

## Cyllid Ymchwil a Datblygu a chredydau treth

Mae'r gyfran o gymorth cyllidol Ymchwil a Datblygu sy'n mynd i BBaChau yn llawer is na gwledydd OECD eraill. Ym mis Ebrill 2023, fe wnaeth Llywodraeth y DU dorri'r Cynllun Credyd Treth Ymchwil a Datblygu i BBaChau yn ddramatig. Er hynny, gwelodd adroddiad diweddar yr FSB, 'The Tech Tonic' fod y Cynllun Credyd Treth Ymchwil a Datblygu wedi ysgogi cynnydd enfawr yn y busnesau bach yn buddsoddi mewn Ymchwil a Datblygu er 2020.[9]

Dengys ymchwil yr FSB fod 64% o gwmnïau bach a wnaeth gais am ryddhad treth Ymchwil a Datblygu yn y tair blynedd ddiwethaf wedi gwella llif arian eu busnes, tra oedd dros hanner (55%) wedi cynyddu eu buddsoddiad mewn Ymchwil a Datblygu.

Mae dau ym mhob pump wedi defnyddio'r credydau treth i gynyddu eu buddsoddiad mewn prosiectau yn y dyfodol, ac mae mwy na thraean o'r derbynwyr yn dweud ei fod wedi arwain iddynt ymgymryd â phrosiectau na fyddai wedi digwydd fel arall.

Fel y cyfryw, mae toriadau Llywodraeth y DU i ryddhad treth Ymchwil a Datblygu, hyd yn oed i gwmnïau dwys o ran Ymchwil a Datblygu, yn hunandrechol, yn arbennig pan fo gwledydd megis Ffrainc a'r Unol Daleithiau yn mynd i'r cyfeiriad arall. Mae hwn yn faes yr ydym yn disgwyl iddo effeithio'n anghymesur ar Weithgynhyrchu. Mae adroddiad diweddar yr FSB 'The Tech Tonic' yn argymell y dylai o leiaf 10 y cant o gyllideb Ymchwil a Datblygu gyffredinol y DU gael ei dyrannu i BBaChau.

Mae eto i fod asesiad swyddogol o effaith toriadau credydau treth Ymchwil a Datblygu ar gwmnïau bach Dylai Llywodraeth y DU gyhoeddi'n gyhoeddus adolygiad o'r effaith ar lefelau'r Ymchwil a Datblygu a gynhelir a'i effaith ar BBaChau.

Ar ben hynny, mae'n dra chydnabyddedig fod Cymru, yn hanesyddol, wedi ennill llai na'i chyfran deg ar gyfartaledd o gyllid Ymchwil a Datblygu'r DU. Mae Cymru'n gwario llai na'i chyfran poblogaeth y DU (5%) ar Ymchwil a Datblygu, a hefyd yn ennill llai na'i chyfran poblogaeth o gyllid ymchwil ac arloesi allanol cystadleuol (gan wario 2% ar Ymchwil a Datblygu ac ennill 3% o gyllid allanol y DU yn y drefn honno).[10]

Mae'r un adroddiad yn gweld bod gan Gymru sector arloesi effaith uchel ond bychan. Dyma fodel sy'n ffitio o fewn yr hyn y mae economegwyr wedi'i alw'n 'baradocs arloesi rhanbarthol'. Mae hyn yn digwydd ble mae 'angen cymharol fwy i wario ar arloesi mewn rhanbarthau sydd ar ei hôl hi' ond ar yr un pryd 'gapasiti cymharol is i amsugno arian cyhoeddus wedi'i glustnodi i hyrwyddo arloesi ac i fuddsoddi mewn gweithgareddau'n gysylltiedig ag arloesi mewn cymhariaeth â rhanbarthau mwy datblygedig.'[11] Mae'n bwysig bod dull strategol ffyniant bro yn edrych ar y mater hwn yn y tymor hir ac yn cael ei addasu i feithrin capasiti mewn ardaloedd megis Cymru, ac i gynorthwyo arloesi a thwf.

### Argymhellion Polisi

- Dylai Llywodraeth y DU gyhoeddi'n gyhoeddus adolygiad o'r effaith ar lefelau Ymchwil a Datblygu a gynhelir ac effaith hynny ar BBaChau, ac ailystyried ei thoriadau i gredydau treth Ymchwil a Datblygu
- Bod o leiaf 10 y cant o gyllideb Ymchwil a Datblygu gyffredinol y DU i'w ddyrannu i BBaChau.
- Dylai Llywodraethau'r DU a Chymru ymorol am adeiladu capasiti i sefydliadau arloesi Cymru ar gyfer y tymor hir, gyda thyfu'r gyfran hon yn ddangosydd allweddol o lwyddiant i unrhyw strategaeth 'ffyniant bro'

[9] *https://www.fsb.org.uk/resource-report/the-tech-tonic.html*

[10] *https://senedd.wales/media/qrobg4st/21-11-research-and-innovation-in-wales-2021-eng-web.pdf*

[11] *C Oughton, M Landabaso, K Morgan, 'The Regional Innovation Paradox: Innovation Policy and Industrial Policy' in Journal of Technology Transfer (2002), available at https://www.researchgate.net/publication/5152703_The_Regional_Innovation_Paradox_Innovation_Policy_and_Industrial_Policy*



Federation of Small Businesses

## Awtomatiaeth


Ym mis Awst 2023 cyhoeddodd yr FSB adroddiad 'The Tech Tonic' ar arloesi a busnesau bach, yn cynnwys arolwg cynhwysfawr o BBaChau ar y mater. Roedd yr adroddiad yn cynnwys nifer o argymhellion ar fynd i'r afael â rhwystrau a chymhellion ar gyfer gwella prosesau gweithgynhyrchu.

Mae hanner (50%) y busnesau bach a fabwysiadodd brosesau newydd a/neu brosesau wedi'u gwella'n sylweddol yn y tair blynedd ddiwethaf yn dweud mai un o'u prif resymau dros wneud hynny oedd i awtomeiddio prosesau.. Ni ellir cymhwyso awtomeiddio at bob proses ond ble gellir gwneud, gallai cymorth ychwanegol helpu busnesau bach i awtomeiddio a bod yn fwy cynhyrchiol.

I'r busnesau bach sy'n teimlo y gallant awtomeiddio rhai prosesau, y prif rwystrau a wynebir yw cost gychwynnol uchel (19%), ansicrwydd enillion (14%), a diffyg cyllid allanol (9%). Mae hyn yn amrywio yn ôl sector. Mewn gweithgynhyrchu, dywedodd 36 y cant o fusnesau bach fod cost gychwynnol uchel  awtomeiddio yn rhwystr, a chrybwyllodd 21 y cant ansicrwydd enillion.

### Argymhelliad Polisi

- Dylai Adran Busnes a Masnach Llywodraeth y DU ddatblygu Cronfa Awtomeiddio, gan gyflenwi busnesau bach â chyllid grant i awtomeiddio prosesau ble mae mynediad at lafur yn heriol. Gallai hyn gael ei dargedu tuag at sectorau penodol. I sicrhau bod busnesau bach yn hyfforddi a datblygu eu staff hefyd, fel rhaid er mwyn cymhwysedd, dylai cwmnïau fod â chynllun hyfforddi yn ei le.





fsb Federation of Small Businesses

## Cymorth i Drawsnewid Ynni Diwydiannol

'Dyw'r Gronfa Trawsnewid Ynni Diwydiannol (IETF) ond ar gael ar hyn o bryd ar gyfer cwmnïau ynni-ddwys sy'n gwario £100,000 neu fwy ar brosiectau effeithlonrwydd ynni neu ddatgarboneiddio. Mae ar gael hefyd ar gyfer astudiaethau dichonoldeb sy'n costio dros £30,000 neu astudiaethau peirianneg sy'n costio dros £50,000. Mae'r ffocws presennol ar gwmnïau mawr allan o'i le a dylid agor y gronfa hon fel bod busnesau bach yn gallu gwneud cais. Mae busnesau bach a wnaeth newidiadau i brosesau gweithgynhyrchu yn y tair blynedd ddiwethaf, yn sôn bod y gost yn £36,495 ar gyfartaledd. Dim ond 11 y cant o fusnesau bach sy'n dweud bod y gost yn fwy na £100,000 a dim ond traean (33%) sy'n dweud ei bod yn fwy na £25,000.

### Argymhelliad Polisi

- Dylai Adran Ynni a Diogelwch Llywodraeth y DU ostwng y trothwyon cymhwysedd i gwmnïau i fod yn gymwys i wneud cais am y Gronfa Trawsnewid Ynni Diwydiannol (IETF). Dylai'r trothwy presennol ar gyfer prosiectau effeithlonrwydd ynni a datgarboneiddio gael ei leihau o £100,000 i £20,000. Dylai'r Adran ystyried gostwng y trothwyon astudiaethau peirianneg ac astudiaethau dichonoldeb lleiaf hefyd.

## Cyllid: Problemau Llif Arian, Cyllid Mewnol a Banciau Gwrth-Risg

**Tabl: Adnoddau cyllid allweddol, diffygion a wynebir, a gofynion yn y dyfodol i gwrdd â nodau ac amcanion (3 uchaf)**

| Materion: Cyllid | Nifer y Cwmnïau | Nifer y rhanddeiliaid |
|---|---|---|
| Cyllid i adnewyddu hen offer | | = 2 |
| Heb fod mewn sefyllfa i gynyddu dyled | 1 | = 2 |
| Cyfraddau llog cynyddol ar y ddyled bresennol / diffyg arian oherwydd costau cynyddol | | = 2 |
| Cael eich gorfodi i ymorol am fenter dorfol neu fenter ar y cyd i gyllido twf | | |
| Diffyg llif arian | = 2 | = 1 |
| Cyllid heb fod yn broblem gan fod cwmnïau'n tyfu'n ofalus (+ angen am gontractau mwy hir dymor) neu fod ganddynt syniadau gwych a dim arian | | = 1 |
| Anawsterau'n cael cyllid grant (e.e. oherwydd croes-sybsideiddio busnesau mwy a achoswyd gan Brexit) | = 2 | |



fsb
Federation of Small Businesses

Gallai hyn gael ei weld hefyd yn nhermau'r drafodaeth ynghylch cyllid, ble oedd diffyg pwys cyffredinol yn cael ei roi ar gyllid allanol, yn rhannol am fod yr amgylchedd presennol wedi creu problem llif arian i lawer o gwmnïau a ffocws bricolage ar ddefnyddio cyllid mewnol yn unig,

*"Nid ydym mewn sefyllfa i gynyddu'r ddyled ymhellach. Yn hytrach, rydym wedi canolbwyntio ar linellau cynnyrch sy'n broffidiol, fel ein bod yn gallu buddsoddi'r elw hwnnw yn ôl yn y busnes."*

Roedd yna wrthwynebiad i risg ymddangosiadol gan fanciau hefyd a arweiniodd gwmnïau a oedd yn chwilio am gyllid allanol i edrych ar ffynonellau eraill.

*"O ran mynediad at arian, rhaid imi ddweud nad yw'r frawdoliaeth fancio wedi bod yn gefnogol iawn. Maen nhw'n wrth-risg a daethant yn fwy gwrth-risg ar ôl Brexit a Covid. Maen nhw'n sôn am gefnogi busnesau gwyrdd ... ond byddwn i'n dweud bod ganddynt freichiau byr a phocedi dyfnion. Mae gennym oddeutu 2,000 o gwsmeriaid mewn tua 50 o wledydd, potensial enfawr. Ond mae datgloi hyn yn golygu bod rhai o'r pethau y mae arnom eisiau eu gwneud ond yn gofyn inni fenthyca ychydig o arian. Mae Banc Datblygu Cymru ychydig yn fwy cefnogol, ond nid yw'r prif gymorth bancio sydd gennym, ein prif fanc clirio, ddim yn gefnogol iawn o gwbl. Dyma'r thema gyffredin. Os oes arnom i gyd eisiau dod yn gynaliadwy, maen nhw'n disgwyl i ni a'n cyfranddalwyr ei ariannu. Rydym wedi rhoi cynnig ar gyllido torfol (tynnwyd oherwydd un agwedd) ac fe allem edrych ar hyn eto, neu ar gydweithredwr trwy Fenter ar y Cyd neu bartneriaeth. Rydym wedi'n hunan-ariannu hyd at yma, ond rydym yn gorfod ystyried yr opsiynau yn awr – a yw'n well rhoi'r gorau i rywbeth i'r dyrfa neu fod â Menter ar y Cyd yn gyfnewid am arian a phrofiad sy'n golygu ein bod yn rhoi'r gorau i fwy, ond sy'n agor y drws inni. Hyd yn hyn, rydym wedi gwneud pethau'n araf, ond yn awr mae arnom eisiau gwneud pethau'n gyflymach."*

Soniwyd hefyd am yr anhawster a gafodd BBaChau yn cael cyllid grant oherwydd cystadleuaeth gan sefydliadau mwy a / neu gostau gwneud cynnig: -

*"Mae'n rhwystredig fod (Prifysgol a enwyd, sydd â'i ffocws ar grantiau ac sydd fel petai'n cael llawer iawn o arian am bethau na fyddant byth yn gweithio, yn llyncu arian trethdalwyr, tra byddai symiau cymharol fach o arian yn gwneud gwahaniaeth enfawr i newyddbethau agosach at y farchnad megis ein rhai*

*ni. Byddai £100k yn hwb mawr i ni ond yn lle hynny rydym yn eu gweld yn rhoi £1m i Brifysgolion ble na fydd yn gwneud gwahaniaeth. Mewn busnesau bach mae yna strwythur staffio lorweddol, ble mae nifer fechan o bobl yn cwmpasu'r lled llawn o weithgaredd ac yn cyfathrebu gyda'i gilydd. Mae hyn yn mwyhau defnydd arian grant mewn cymhariaeth â chwmni mwy ble mae yna fwy o bobl sy'n torri'r swyddi yn ddarnau. Y rhwystredigaeth arall yw'r fiwrocratiaeth. Gallai'r gronfa ffyniant bro roi £5k inni'n dechnegol, ond mae cost amser llenwi'r gwaith papur yn fwy na hynny, gan ei wneud yn anhygyrch i lawer BBaCh."*

### Argymhellion Polisi

- Mae'r cyllid ar gyfer Banc Datblygu Cymru (DBW) a Busnes Cymru ar ôl 2025 yn dal yn ansicr. Dylai'r cyllid a'r statws yma gael ei sicrhau i roi mwy o sicrwydd i BBaChau ac i arwyddo ffocws ar ddatblygiad hir dymor BBaCh.
- Mae angen i ymdrech glir gael ei gwneud gan Fanc Busnes Prydain wrth negesu a thargedu Cronfa Fuddsoddi Cymru gwerth £130 miliwn sydd ar ddod i'r sector i gefnogi twf a sefydlogrwydd busnesau gweithgynhyrchu llai
- Dylai Llywodraeth Cymru adolygu maint y cronfeydd sydd ar gael hefyd ble mae angen symiau cymharol fach-canolig o gyllid. Ymddengys fod bwlch cyllido rhwng potiau bach (£5,000) a photiau mawr (£1m). Byddai rhannu potiau sy'n fwy ar hyn o bryd yn botiau llai, a / neu sicrhau bod cyfran yn cael ei neilltuo ar gyfer cyllid BBaCh yn ymorol am fynd i'r afael â chanol coll ac yn helpu i ddatblygu cwmnïau llai i dyfu.



Federation of Small Businesses



## Seilwaith: Adeiladau, Tir a TGCh

**Adnoddau cyllid allweddol a materion seilwaith, diffygion a wynebir, a gofynion yn y dyfodol i gwrdd â nodau ac amcanion.**

| **Materion: Seilwaith** | **Nifer y Cwmnïau** | **Nifer y rhanddeiliaid** |
|---|---|---|
| Tir addas / lle i ehangu | = 1 | = 2 |
| Costau adeiladu | = 1 | |
| Rheoliadau adeiladu | = 3 | |
| Diffyg seilwaith ynni addas | = 3 | |
| Diffyg diogelu ffynonellau ynni | = 3 | |
| Seilwaith ffyrdd | | = 2 |
| Seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus (yn cynnwys rheilffyrdd) | | = 2 |
| Seilwaith TGCh | | 1 |

Fe wnaeth y drafodaeth ar seilwaith amlygu rhywfaint o wahaniaeth hefyd rhwng BBaChau a rhanddeiliaid y gellid ei weld eto yn nhermau'r gwahaniaeth yn y ffrâm amser y canolbwyntiwyd arno. Roedd consensws ynghylch y diffyg adeiladau / tir addas i ehangu oedd yn allweddol o berthnasol i BBaChau ac i randdeiliaid hefyd. Un dyfyniad a grynhodd y rhwystredigaeth ynghylch hyn oedd: -

*"Mae lle fforddiadwy yn fater allweddol...Mae yna ddiffyg lle diwydiannol fforddiadwy. Mae Busnes Cymru yn ein hanfon at Busnes mewn Ffocws OND swyddfeydd sydd ganddynt hwy NID unedau diwydiannol. Mae yna brinder unedau diwydiannol. Mae arnom angen lle â chymhorthdal i hwyluso ein twf fel ein bod mewn blwyddyn neu ddwy yn gallu fforddio gadael y lle hwnnw ac y gall y (busnes) nesaf symud i mewn. Yn Aberhonddu gallwn gael lle am £3k y flwyddyn a TAW.*

Federation of Small Businesses

*Yn bellach i'r de mae'r un lle'n costio £10k a TAW. Mae gennym blant yn yr ysgol, ac mae fy mhartner busnes yn byw yn y pentref nesaf, ac nid ydym am symud. Os oes rhaid inni, fe symudwn y busnes, ond mae ein mentoriaid busnes wedi dweud wrthym lawer tro, mae angen i'r busnes weithio i chi nid y ffordd arall".*

Fe wnaeth BBaChau bwysleisio materion eraill yn ymwneud ag adeiladau hefyd,

*"Os wnawn ni gyflawni ein targed twf, byddwn yn mynd yn brin o le. Mae gennym dir nesaf at y ffatri bresennol i adeiladu arno OND mae cost adeiladu yn afresymol ac mae gofynion adeiladu Cymru yn uwch nag yn Lloegr, ble mae costau adeiladu is oherwydd y gwahaniaethau yn y rheoliadau".*

Roedd pryderon ynglŷn ag argaeledd ynni yn berthnasol i eraill.

*"Mae costau'n fater allweddol ar hyn o bryd. Mae ynni yn arbennig yn costio £1m y flwyddyn yn fwy na'r llynedd."*

A

*"Nid yw'n gost-effeithiol neu'n fanteisiol i unedau unigol ar yr ystâd fuddsoddi mewn seilwaith ynni."*

I'r rhanddeiliaid, canolbwyntiwyd yn gryfach ar drafnidiaeth yn ehangach, yn cynnwys trafnidiaeth gyhoeddus, a seilwaith TGCh: -

*"O ran seilwaith rydym yn symud at system TG cwmwl o weinydd, a all fod â chanlyniadau anfwriadol i BBaChau. O ran y materion seilwaith ehangach, mae'r cysylltiadau ffyrdd rhwng gogledd, de, a chanolbarth Cymru yn amlwg yn broblem, felly mae'r rheini ar goridor yr M4 neu gerllaw â mantais ar gyfer dosbarthu a logisteg. Mae hon yn broblem hir dymor sydd wedi'i hamlygu, a'r un modd y rhwydwaith trenau ac mae cael y gweithlu i'r gwaith yn broblem amlwg arall, felly mae yna gamau yn y cyfeiriad iawn (e.e., y metro'n helpu cael pobl i'w gwaith)"*

### Argymhellion Polisi

- Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu cronfa ddata eiddo, adeiladau, ac atlas tir chwiliadwy, y gallai busnesau uniaethu ag e' a chael eu paru ag eiddo, adeiladau a thir addas. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth ynglŷn â defnydd priodol o eiddo, yn ogystal â maint, ac amcangyfrifon o bosibl o'r gost ar gyfer unrhyw drawsnewid defnydd.
- Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu liferi ymhellach a photensial i asesu treth tir gwag yn y dyfodol ar gyfer rhesymoli rheoliadau cynllunio.
- Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu rhyddhadau treth byrdymor i fusnesau bach sy'n bwriadu symud i adeiladau mwy a hurio staff newydd ac edrych ar bwerau pellach ar gyfer rhyddhadau am welliannau i adeiladau a pheiriannau dros raddfeydd amser hirach fel y bo'n briodol er mwyn cynorthwyo'r pontio i sero net.
- Deddfwriaeth alluogi i ganiatáu cyfuno a rhannu trwy gwmni cydweithredol ar gyfer ynni, perchnogion a thenantiaid, mewn dull math Ynni Ogwen o weithredu i BBaChau weithio ar y cyd, wedi'i hwyluso gan reolwr adeiladau / safleoedd allweddol.





fsb Federation of Small Businesses

## Cynaliadwyedd: Yr Angen am Gymorth a Diffyg Rheolaeth

**Tabl: Materion, problemau, cyfleoedd, a chamau gweithredu mewn perthynas â chynaliadwyedd a chylchogrwydd (3 uchaf)**

| Materion | Nifer y Cwmnïau | Nifer y Rhanddeiliaid |
|---|---|---|
| Cynaliadwyedd a yrrir gan gwsmeriaid / cyflenwyr o'r tu allan i reolaeth y cwmni yn cynnwys dramor | | = 1 |
| Partneriaethau Lleol / rhwydweithiau ar gyfer ailgylchu a rhannu gwybodaeth | | = 1 |
| Gweithredu gan y llywodraeth yn annigonol (e.e., tariffau cyflenwi trydan, seilwaith ynni, anawsterau'n gweithio â'r sector cyhoeddus) | 2 | 3 |
| Cynaliadwyedd fel calon model busnes a phwynt gwerthu unigryw (USP) | 3 | |
| Mae gan gwmnïau wybodaeth dda am y materion ac maent yn gefnogol | 1 | |

Yn olaf, ynglŷn â chynaliadwyedd a chylchogrwydd, tra bo rhanddeiliaid wedi rhoi mwy o bwyslais ar hyn, roedd consenswс gyda BBaChau (a oedd yn deall ac yn gefnogol i'r agenda cynaliadwyedd hefyd) ynghylch yr angen i'r llywodraeth weithredu i ddileu rhwystrau i gymeriant BBaCh yn y maes yma.

*"Rydym newydd gael asesiad ôl troed Carbon wedi'i wneud, ond mae yna'n awr gwestiwn "beth yw'r ots" mawr, a phryder mai ymgynghorwyr yn "neidio ar y drol" yw hyn, yn cael eu talu i wneud asesiadau a rhoi adroddiadau inni na allwn wneud dim â nhw. Mae sero net yn fater byd-eang, a fydd yn fwy aflonyddol na'r pandemig ac yn cymryd mwy o amser OND os yw'r canlyniadau mor ddinistriol ag y rhagwelwyd yna nid yw llywodraethau'n fyd-eang yn gwneud digon. Mae'r cwmni wedi'i gyfyngu yn yr hyn y gall ei wneud am ein bod yn cyrchu cynhyrchion yn fyd-eang. Mae ein pobl yn gorfod gyrru i'r gwaith."*

Rhoddodd sawl cwmni gynaliadwyedd wrth galon eu modelau busnes yn y gred ei fod yn bwynt gwerthu unigryw i'r busnes ei hun. Roedd cydnabyddiaeth hefyd, fodd bynnag, fod yr agenda'n cael ei gyrru'n aml gan y gadwyn gyflenwi ehangach, yn cynnwys honno y tu allan i'r DU, a bod BBaChau yn dibynnu'n aml ar weithgareddau cynaliadwyedd sefydliadau allanol i gyflawni eu gofynion cynaliadwyedd a chylchogrwydd.

*"Rydym yn ceisio gwneud y peth iawn, ond rydym yn ddibynnol ar eraill. Mae angen i'r system fod yn effeithlon ac wedi'i chymell yn ariannol i leihau problemau. Mae'n syniad da a dylai fod ei werth e OND mae'r byd go iawn yn golygu bod cost mor bwysig."*



fsb Federation of Small Businesses

Fe wnaeth BBaChau a rhanddeiliaid amlygu sawl rhwystr gwahanol i'w gweithgareddau hefyd, yn cynnwys cost.

*"Rydym yn edrych bob amser ar gynaliadwyedd a bod yn wyrddach. Am ein bod yn gweithio mewn metel y gellir ei ailgylchu, 'does dim angen inni wneud llawer yn ychwanegol. Roedd arnom eisiau paneli solar, ond 'doedd ein toeau ddim wedi'u cynllunio i gymryd paneli a 'doedd y pris o £480k hyd yn oed gydag ad-daliad 7.5 mlynedd ddim yn cynnwys costau cudd eraill. Rydym yn edrych eto yn awr ac yn ceisio arbed ynni, gan gadw peiriannau wedi'u diffodd pan allwn ni, ond mae ffynonellau ynni gwyrdd yn dal yn llawer mwy drud na'r traddodiadol ac o ystyried bod y bil ynni wedi mwy na dyblu, ni allwn ystyried hyn."*

Mae consenswS ynghylch diffygion presennol gweithgaredd y llywodraeth, ble oedd problemau ynglŷn â Tariffau Cyflenwi Trydan, seilwaith ynni ac anawsterau'n gweithio gyda'r sectorau cyhoeddus, yn golygu bod rhwystredigaeth na ellid manteisio ar gyfleoedd a oedd wedi'u clustnodi.

*"Mae ein defnydd ynni yn isel yn barod, ac er y gallem osod PV solar yfory, mae'r ffaith fod y tariff cyflenwi trydan yn 6c a bod 45c y kwh yn cael ei godi arnom yn golygu bod llywodraeth y DU yn rhoi'r neges anghywir trwy ganiatáu i'r cwmnïau ynni wneud hyn a thrwy atal cymhellion."*

Gwelai rhanddeiliaid atebion posibl nid yn unig mewn gwell gweithredu gan y llywodraeth ond hefyd yn natblygiad partneriaethau a rhwydweithiau lleol ar gyfer ailgylchu a rhannu gwybodaeth.

*"Yr her fawr i BBaChau yw costau cynaliadwyedd. Mae nwyddau eildro yn tueddu i fod yn fwy costus, mae angen seilwaith ar gyfer sero net, y mae angen ei ystyried, ac mae paneli solar ag angen buddsoddiad cyfalaf. Mae ein sefydliad wrthi'n pontio i sero net, ac mae ganddo baneli solar, ond y broblem i BBaChau yw sut y maen nhw'n cychwyn y siwrnai hon, gan y bydd yna amser arwain hir oni bai fod ganddynt wybodaeth am ynni adnewyddadwy, ynghyd â buddsoddiad mewn seilwaith. Ni fydd BBaCh yn allyrru'r un fath â gweithgynhyrchydd byd-eang, ond mae yn dal i fod angen iddynt ddeall yr effaith cost. Mae rheoli newid yn broblem yma hefyd, gan fod goblygiadau o ran prosesau a gweithdrefnau, costau anuniongyrchol (amser arwain hirach yn aml), a phroblemau rheoli pobl a allai fod yn enfawr, gan fod newid diwylliant yn cymryd amser, ac mae angen egluro paham fod angen newid, yn arbennig os yw'r hyn y buont yn ei wneud wedi bod yn llwyddiannus. Mae llywodraeth y DU a llywodraeth Cymru*

*yn allweddol i helpu BBaChau i gwrdd â thargedau, mae'n "arian a rhannu gwybodaeth, grwpiau cymunedol a sesiynau BBaChau cwmnïau mawr. Dylent droi at y rheini sydd ar y siwrnai'n barod (CYLCHOEDD DYSGU O BOSIBL), ac fe all fod angen i gymell y rheini gyda'r wybodaeth i'w rhannu, trwy ddefnyddio fframweithiau'r llywodraeth i drosoli hyn. Er enghraifft, efallai y byddai angen i sefydliadau mwy sy'n gwneud ceisiadau ddarparu rhannu gwybodaeth i BBaChau sy'n gweithgynhyrchu."*

## Argymhellion Polisi

- Mae angen i Lywodraeth Cymru symud yn gyflym i asesu'r seilwaith sydd ei angen yn y dyfodol ar gyfer cyfleoedd economi gylchol a sut y byddant yn eu darparu, yn cynnwys
    - hybiau rheoli gwastraff newydd,
    - paru deunyddiau ag anghenion sectoraidd.
    - cyfleoedd i sgilgynhyrchu meithrin capasiti a galluoedd  busnesau i ddarparu gwasanaethau yng Nghymru.
- Busnes Cymru a chyrff cymorth i barhau i ddatblygu cymorth cynaliadwyedd, cyngor, cyllid a chymorth, a sicrhau bod capasiti cymorth yn cyd-fynd ag amcanion ac anghenion Llywodraeth Cymru. Nodi sut orau i ddarparu hyn (e.e., arbenigedd tai hybiau lleol)
- Llywodraeth Cymru i ddefnyddio pob cynllun (megis benthyciadau cynaliadwydd Banc Datblygu Cymru) i uwchsgilio meysydd sydd â mannau cyswllt gyda busnesau (e.e., cyfrifwyr) a/neu feithrin capasiti ar gyfer cyngor ar gynaliadwyedd ac archwiliadau gwyrdd.
- Meithrin addysg, sgiliau a system sgiliau hyfforddi i'w gwneud yn gydnaws â'r uchod a'u cefnogi
- Prif-ffrydio cymorth math Adnoddau Dynol ar gyfer busnesau bach trwy gyflwyno rhaglenni megis You and Co2
- Llywodraeth Cymru i sicrhau bod Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael yn cael ei defnyddio i raeadru'r cymorth i gadwyni yn is i lawr a chwmnïau llai, a bod data'n cael ei ddarparu ar gyfer craffu trwy Bwyllgorau'r Senedd
- Dylai Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru weithio gyda'i gilydd i asesu a gweithredu ar arloesi Cymreig penodol a phwyntiau cyfle ymchwil a datblygu i ysgogi galw am a chyflenwi economi gylchol a chyfleoedd sero net. Mae enghraifft yn cynnwys cyfleoedd a gynigir gan greu trydan morlyn llanw / morglawdd.



fsb Federation of Small Businesses

Pennod 3

# Y Darlun Mawr: BBaChau Gweithgynhyrchu Cymru Yng Nghyd-destun Economi Cymru

Mae Mynegai Cystadleurwydd mwyaf diweddar y DU (2021)[viii] yn dangos bod Cymru at ei gilydd, a'i dinas-ranbarthau cyfansoddol yn parhau i nychu yn rhannau isaf y tablau gyda fawr ddim arwydd o welliant cymharol yn y blynyddoedd diwethaf. Yn galonogol, o ran cyfraddau cyflogaeth a thlodi, mae Cymru wedi bod yn perfformio'n well nag o'r blaen. Yn nhermau Incwm Gwario Gros Aelwydydd, prif incwm o waith, a chyfanswm cyfoeth aelwyd, fodd bynnag, mae'r sefyllfa wedi gwaethygu yn yr 20 mlynedd ddiwethaf[ix]. Mae hi'n bwysig, felly, ystyried y dystiolaeth o'r cyfweliadau yn erbyn economi Cymru a gweithgynhyrchu Cymru yn fwy eang, er mwyn canfod y meysydd hynny i'w blaenoriaethu ar gyfer ymyrraeth gan y llywodraeth.

Mae data o cyn 2010[x] yn nodi hefyd fod BBaChau yng Nghymru yn aml yn canolbwyntio bron yn gyfan gwbl ar y gystadleuaeth ar y pryd ac ar ddiffodd tannau o ddydd i ddydd felly 'dyw hyn ddim yn broblem newydd. Mae hyn yn eu hatal rhag ymgymryd â chynllunio strategol effeithiol a / neu rwydweithio i sicrhau twf ac arloesi. Yn Ne-Ddwyrain Cymru dangosodd yr arolwg hwn hefyd fod y math o rwydweithio a gwybodaeth a geisir gan BBaChau yn aml heb fod yn rheini a gysylltir fwyaf ag arloesi a thwf. Roedd eu gweithgareddau rhwydweithio yn fwy cyffredinol, ac nid oedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn cysylltu rhwydweithio gyda'r amcanion mwy tymor hir a'r caffael gwybodaeth sy'n fwy cysylltiedig â thwf.

Mae hyn i gyd yn dangos bod yna fwlch y gellir ei lenwi gan strategaeth glir wedi'i hanelu, yn gyntaf, at greu hyblygrwydd i BBaChau, ac yna at ddarparu'r ymyriadau wedi'u targedu i ddarparu ar gyfer cynllunio strategol mwy tymor hir a rhwydweithio a gwybodaeth sy'n gallu meithrin arloesi a thwf.

## Strwythur Gweithgynhyrchu yng Nghymru

Er bod gweithgynhyrchu yng Nghymru yn amlwg yn wynebu heriau a phroblemau, mae hefyd yn dangos gwydnwch rhyfeddol sy'n pwysleisio pwysigrwydd polisïau i gefnogi'r sector hollbwysig hwn. Roedd cyfanswm cyflogaeth (heb gynnwys yr hunangyflogedig) yn 2021 mewn gweithgynhyrchu yn 137,400 (10.29%)[xi]. Yn wir[xii] mae hyn yn 5.6% yn uwch nag yn 2010 o ran niferoedd y cyflogedigion i gyd (130, 100), er fymryn bach yn is fel cyfran o gyfanswm cyflogaeth (10.33%).

fsb Federation of Small Businesses

Mae gweithgynhyrchu Cymru wedi gweld codiad cymharol fach (5%) hefyd yng nghyfanswm nifer y mentrau yng Nghymru. Mae hyn, fodd bynnag, wedi'i ddosbarthu'n anwastad.




Digwyddodd y codiad cryfaf mewn cwmnïau mawr (dros 15%) tra bu i gwmnïau micro a chanolig eu maint gynyddu o bron 10% yr un, ond gwelodd cwmnïau llai (10-49 yn gyflogedig) ostyngiad o bron 20% dros y blynyddoedd 2010-22. Gwelwyd hefyd nad oedd y bras dueddiadau cyffredinol hyn yn ganlyniad amlwg i naill ai Brexit (cyfnod ôl 2016) neu Covid (ôl 2019,) ble yn galonogol, gellid gweld gwydnwch (hyd yn oed beth twf yn y niferoedd), marweidd-dra (dim newid) neu ostyngiadau bach iawn yn nifer y cwmnïau[xiii].

Ni ellir egluro hyn gan y ffaith fod cwmnïau bach wedi tyfu'n gwmnïau canolig neu fawr. Yn hytrach, mae hyn yn debygol o fod yn gynrychioliadol o fregusrwydd y sector cwmnïau bach yng Nghymru, heb fod yn ddigon abl i dynnu ar ddigon o gwmnïau micro'n tyfu'n gwmnïau bach, ac yn debygol o fod wedi'u heffeithio hefyd gan gyfyngiadau adnoddau nad oes gan gwmnïau canolig a mwy, ac felly'n agored i niwed gan amgylchedd economaidd sydd wedi bod yn arbennig o anwadal yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf.

O ystyried bod gwerthoedd a strwythurau cost BBaChau wedi'u haddasu'n well yn aml i farchnadoedd bach a maint elw llai, mae hyn yn awgrymu y gall cwmnïau bach fod â photensial, ond potensial anghyffwrdd, i dyfu, y mae'r amgylchedd presennol yn ei gyfyngu.

Mae ymchwil blaenorol[xiv] hefyd wedi dangos cyfran debyg o gwmnïau canolig eu maint yn y cyfrif mentrau, a chyfraniad uwch at gyflogaeth a throsiant, o gymharu â chyfartaledd y DU. Mewn cymhariaeth â'r DU a gweinyddiaethau datganoledig eraill, 'does dim 'canol coll' o ran y gyfran o gwmnïau canolig eu maint yn y cyfrif busnesau yng Nghymru. Safbwynt arall gan ddefnyddio'r un data, fodd bynnag, yw BOD gan Gymru ganol coll OND nad yw'n arwyddocaol o anghymesur i'r mater "sector preifat coll" ehangach, o ystyried bod gan Gymru fwy o ddibyniaeth yn ôl cyfran ar y sector cyhoeddus ac o ganlyniad sector preifat sy'n llai yn gymharol.

Mewn rhai ffyrdd mae'r diffiniad hwn yn llai pwysig na'r ddadl greiddiol ar lunio economi BBaCh cynaliadwy, â'i sylfeini yn ein cymunedau. Dylai'r ffocws fod ar helpu'r hunangyflogedig i dyfu'n gwmnïau micro, cwmnïau micro i dyfu'n gwmnïau bach a chwmnïau bach i symud o 15 o gyflogedigion i 25 ac yna tuag at 50, fel ffordd o "ysgogi" y sector cwmnïau canolig eu maint yn well. O ystyried yr angen i ddatblygu cadwyni cyflenwi cryfach yng Nghymru ar gyfer y busnesau presennol, a glustnodwyd gan y cyfweliadau, mae hyn yn awgrymu hefyd fod cyfle gwirioneddol yma ar gyfer twf wedi'i sefydlu'n lleol, a fyddai hefyd yn cefnogi agendâu megis y rheini sydd a wnelo â'r economi gylchol.


fsb
Federation of Small Businesses

Mae yna angen clir yma hefyd o ystyried bod y gyfran o GVA Cymru o weithgynhyrchu wedi dirywio o 16.9% i 16.1% rhwng 2010 ac 2020. Nid yw newidiadau yn strwythur gweithgynhyrchu yng Nghymru, sy'n digwydd yn bennaf ar lefel BBaCh, wedi atal y dirywiad hir dymor ym mhwysigrwydd uniongyrchol gweithgynhyrchu i economi Cymru o ran gwerth ychwanegol. Yn rhannol mae hyn yn debygol o fod yn gysylltiedig â'r ffordd y mae'r cynnydd cymharol fach yn y nifer o fentrau gweithgynhyrchu wedi'i ddosbarthu, yn arbennig y gostyngiad yn y mentrau gweithgynhyrchu bach yn gyfwerth â "chanol coll" gyda'r sector BBaCh ei hun. Elfen allweddol arall, fodd bynnag, yw effaith is-sectorau gweithgynhyrchu Cymru ar yr economi ehangach, trwy'u heffeithiau lluosydd, sydd hefyd yn cysylltu â materion sydd a wnelo â chadwyn cyflenwi Cymru a drafodwyd yn y cyfweliadau.

## Effeithiau Lluosydd Gweithgynhyrchu Cymru

Mae hi'n bwysig deall sut y mae gweithgynhyrchu yng Nghymru yn effeithio ar yr economi, trwy'i ddefnydd ei hun o nwyddau a gwasanaethau mewn cysylltiadau cadwyni cyflenwi ond hefyd y cyflogau y mae'n eu creu ar gyfer ei gyflogedigion sy'n cael eu gwario wedyn yn economi Cymru, nid yn lleiaf am fod i weithgynhyrchu effaith a allai fod yn fwy ar yr economi trwy'i effeithiau cadwyn cyflenwi.

Mae'r cyfweliadau'n cyd-fynd â'r dadansoddiad data eilaidd a wnelo â lluosyddion i gefnogi'r farn fod Cymru'n cael "llai o werth" am bob £ o dwf GVA, gan greu crychau yn hytrach na thonnau yn yr economi ehangach. Gan grynhoi'r drafodaeth isod, mae'r sectorau gweithgynhyrchu yng Nghymru yn fwy crynodedig yn yr ystyr bod ganddynt gadwyni cyflenwi lleol gwannach a llai o ddefnydd o gynhyrchion lleol (yn nwyddau ac yn wasanaethau). O ganlyniad, mae hyn yn golygu bod gan Gymru lai o gyflogaeth a lluosyddion GVA nag y byddai ganddi fel arall.

Gellir gweld hyn fel rhan o broblemau cadwyni cyflenwi a defnydd hir dymor economi Cymru yn fwy eang . Mae cymhariaeth â data o'r Alban am y cyfnod 2015-21, er enghraifft, yn dangos bod gan yr Alban berthynas gadarnhaol gydag allbwn, cyflogaeth a lluosyddion GVA, mewn perthynas â chyflogaeth yn y sectorau gweithgynhyrchu, tra'i bod yn negyddol yng Nghymru, er yn gwella ychydig rhwng 2015 a 2021.

Os byddwn ond yn edrych ar effaith y gwahaniaethau yn strwythur sectoraidd gweithgynhyrchu Cymru a'r Alban (trwy ddefnyddio lluosyddion yr Alban ar gyfer y ddau) gwelwn fod cydberthyniadau Cymru yn dod yn gadarnhaol ac nid yn rhy annhebyg i eiddo'r Alban. Mae hyn eto'n cefnogi'r angen i lunio cadwyni cyflenwi cryfach a mwy gwydn yng Nghymru wedi'u cysylltu â busnesau yng Nghymru sydd eisoes yn llwyddiannus.

#### Cysylltiadau rhwng Cyflogaeth Sectoraidd a Lluosyddion mewn Gweithgynhyrchu yng Nghymru

| **Cysylltiadau** | **Gwerthoedd Cydberthyniad** |
|---|---|
| Cyflogaeth yn ôl sector gyda Newid yng Nghyfraniad GVA | -0.330023784 |
| Cyflogaeth yn ôl sector gyda lluosydd GVA | -0.280209236 |
| Cyflogaeth yn ôl sector gyda Lluosydd Cyflogaeth | -0.330405375 |
| Cyflogaeth yn ôl sector gyda Lluosydd Allbwn | 0.133057645 |

Gan edrych ar y gyflogaeth yn mhob sector yn erbyn y GVA, cyflogaeth a lluosyddion allbwn (o dablau Mewnbwn Allbwn diweddaraf Cymru) mae problem strwythurol ehangach mewn gweithgynhyrchu yng Nghymru yn cael ei amlygu o ran y GVA a lluosyddion Cyflogaeth (er nad y lluosydd allbwn).



Federation of Small Businesses

Mae yna gydberthyniad cadarnhaol bychan rhwng maint cyflogaeth mewn sector yng Nghymru a gwerth y lluosydd allbwn (h.y., mae gan sectorau gyda mwy o gyflogaeth luosyddion allbwn uwch). Mae yna, fodd bynnag, gysylltiadau negyddol cryfach gyda'r GVA a'r lluosyddion cyflogaeth (h.y., mae'r sectorau gyda mwy o gyflogaeth â GVA a lluosyddion cyflogaeth is) gan awgrymu bod ganddynt effeithiau defnydd a chyflenwr gwannach na sectorau sy'n cyflogi llai o bobl. Mae hyn yn golygu nad yw Cymru'n cael y manteision economaidd ehangach o hyn ag y dylai fod, a gellid mynd i'r afael â hyn trwy lunio cadwyni cyflenwi cryfach a mwy gwydn yng Nghymru wedi'u cysylltu â busnesau yng Nghymru sydd eisoes yn llwyddiannus.

| Cysylltiadau | Gwerthoedd Cydberthyniad |
|---|---|
| Newid yn Nifer y  Cwmnïau yn y sector gyda Newid yng Nghyfraniad GVA | -0.010211872 |
| Newid yn Nifer y Cwmnïau yn y sector gyda Lluosydd GVA | -0.352711734 |
| Newid yn Nifer y Cwmnïau yn y sector gyda Lluosydd Cyflogaeth | -0.424320649 |
| Newid yn Nifer y Cwmnïau yn y sector gyda Lluosydd Allbwn | 0.250659994 |
| Lluosydd GVA gyda lluosydd allbwn | -0.545376923 |
| Lluosydd GVA gyda lluosydd cyflogaeth | 0.889900093 |
| Cyflogaeth gyda lluosydd allbwn | -0.765167549 |

Os edrychwn ni ar natur ddynamig hyn trwy'r berthynas rhwng nifer cyffredinol y cwmnïau dros amser, newidiadau i'r GVA, a'r lluosyddion GVA, cyflogaeth ac allbwn (o dablau diweddaraf Mewnbwn Allbwn Cymru), mae darlun yr un mor bryderus yn cael ei ddangos.

Yn benodol, mae cydberthyniad negyddol cryf rhwng y newidiadau strwythurol mewn gweithgynhyrchu yng Nghymru (fel y'i cynrychiolir gan newidadau yn niferoedd cwmnïau ym mhob sector) a lluosyddion GVA a chyflogaeth. Mae twf wedi digwydd mewn sectorau gyda lluosydd is ac i'r gwrthwyneb er, oherwydd y berthynas negyddol rhwng lluosyddion GVA a chyflogaeth gyda'r lluosydd allbwn, mae yna berthynas wannach, ond cadarnhaol rhwng y newidiadau yn nifer y cwmnïau ym mhob sector a'r lluosydd allbwn (h.y., mae twf wedi digwydd mewn sectorau gyda lluosyddion allbwn uwch ac i'r gwrthwyneb).





Federation of Small Businesses

## Perifforoldeb a Gweithgynhyrchu yng Nghymru

Mae gweithgynhyrchwyr Cymru yn dioddef hefyd gan berifferoldeb cymharol economi Cymru. Mae hyn yn ei gwneud yn fwy anodd i gael at brif ffynonellau cyllid y DU (yn cynnwys angylion busnes[xvi]) sy'n tueddu i fod wedi'u crynhoi yn Ne-Ddwyrain Lloegr. Mae hyn yn gallu golygu hefyd fod BBaChau Cymru yn wynebu anawsterau mwy yn cael gafael ar y cyllid sydd ei angen arnynt i dyfu a buddsoddi mewn technolegau a phrosesau newydd.

O ganlyniad, mae gallu BBaChau Cymru i gael at ffynonellau cyllid yn tueddu i fod yn fwy cyfyngedig o gymharu â chynhyrchwyr mwy, rhyngwladol yn aml (neu o leiaf â llawer lleoliad yn y DU) yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio lliniaru hyn, gan ddarparu mynediad at gyllid trwy fentrau megis Cronfa Gyd-fuddsoddi Angylion Cymru a Banc Datblygu Cymru, gan ddarparu cyllid ecwiti a benthyciadau i fusnesau bach. Mae Cymru, fodd bynnag, yn dal i fod wedi'i chloi mewn cytbwysedd ecwiti cymharol isel mewn cymhariaeth â'r DU yn ei chyfanrwydd[xvii], gan ei gadael yn llai abl i gystadlu'n effeithiol â gweithgynhyrchwyr mwy ac ehangu ei gweithrediadau. Tra bod benthyciadau Banc Datblygu Cymru wedi bod yn llwyddiannus, ac felly'n dangos methiant yn y farchnad y dylai cyllid preifat gael ei wneud yn ymwybodol ohono a'i lenwi, mae yn amlwg berygl hefyd o or-ddibyniaeth ar Fanc Datblygu Cymru, sy'n mynd yn llai hyfyw yn y tymor hir gan nad yw ei adnoddau'n ddigon i fynd i'r afael â'r mater.

Mae maes arall, y gellir ei gysylltu â phroblemau perifferoldeb ymddangosiadol, yn ymwneud â'r anhawster hanesyddol a wynebir gan BBaChau Cymru wrth gael at farchnadoedd caffael cyhoeddus. Cymhlethir hyn gan fod bron hanner gwariant caffael cyhoeddus ei hun Cymru yn dal i fod gyda sefydliadau y tu allan i Gymru[xviii]. Mae hyn yn dangos maes gyda phosibiliadau sylweddol ar gyfer twf fel marchnad i BBaChau gweithgynhyrchu Cymru, ond hefyd densiynau a chyfnewidiadau i gyfundrefnau caffael cyhoeddus wrth ymdrin â'r mater mwyfwy amlwg o fudd cymunedol yn amgylchedd caffael Cymru[xix], gan gysylltu'n ôl eto â'r anghenion i ddatblygu cadwyn cyflenwi Cymru, yn arbennig trwy arloesi.

Mae gweithgynhyrchwyr Cymru wedi'u heffeithio'n hanesyddol hefyd gan seilwaith cymharol wael. Mae hyn yn cynnwys, ond heb fod wedi'i gyfyngu i, gysylltiadau trafnidiaeth, sy'n tueddu i ganolbwyntio ar gysylltu Cymru ag economi ehangach y DU yn hytrach nag o fewn Cymru ei hun. Bydd hyn yn cael gwahanol effeithiau mewn gwahanol rannau o Gymru, gyda chanolfannau gweithgynhyrchu yng Ngogledd-Ddwyrain a De-Ddwyrain Cymru er enghraifft yn meddu ar gysylltiadau trafnidiaeth a mynediad agosach at ganolfannau yn Lloegr na lleoedd ymhellach i'r Gorllewin yng Nghymru. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu hefyd yn yr ardaloedd hynny sy'n sgorio uchaf o ran cynhyrchiant yng Nghymru gan ddangos eu pwysigrwydd hanesyddol mewn gweithgynhyrchu ac ar gyfer twf economaidd. Mae mynediad at seilwaith band eang, sy'n gallu cyfyngu eu gallu i gysylltu â chwsmeriaid a chyflenwyr a mabwysiadu technolegau newydd, wedi'i amgyffred yn broblem benodol yn y gorffennol hefyd, gan arwain at raglen helaeth o gyflwyno band eang cyflym iawn sy'n cael ei harwain gan y Llywodraeth[xx].

Er ei fod wedi gwella'r sefyllfa'n sylweddol o ran mynediad, mae problemau parhaus yn dal i fodoli i rai BBaChau gwledig mwy anodd eu cyrraedd. Er bod llawer o BBaChau yn gallu gwneud defnydd bellach o dechnolegau digidol mwy 'sylfaenol', mae yna her gynyddol wrth ddefnyddio technolegau mwy datblygedig, gan ei gwneud yn fwy anodd iddynt wneud y defnydd gorau o'r seilwaith sydd ganddynt. Ar yr un pryd, tra bod angen cysylltiadau cyflymder uchel cyflymach yn seiliedig ar ffibr ar gyfer cymwysiadau cyfrifiadura cwmwl newydd a throsglwyddo data, mae Cymru ar ei hôl hi o ran argaeledd cysylltiadau o'r fath. Mae hyn yn amlwg yn effeithio ar allu Cymru i fanteisio ar gamau ymlaen mewn Amaeth-arloesi seiliedig ar cwmwl, ond mae iddo effeithiau ar weithgynhyrchu hefyd.



fsb
Federation of Small Businesses



## Cyd-destun Economaidd Rhyngwladol Gweithgynhyrchu yng Nghymru

Ar ben hyn i gyd, mae ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd wedi creu ansicrwydd sylweddol i weithgynhyrchwyr Cymru. Mae hyn yn arbennig o wir o ran masnach gyda'r UE, y bu gweithgynhyrchu yng Nghymru yn gymharol ddibynnol arno[xxi], ar gyfer allforion, mewnforion, a mynediad at dalent. Gall hyn ei gwneud yn anodd i weithgynhyrchwyr Cymru gynllunio a manteisio ar gyfleoedd newydd.

Mae gweithgynhyrchwyr Cymru'n wynebu cystadleuaeth sylweddol hefyd gan economïau cost isel, megis China ac India, sy'n gallu cynnig nwyddau a gwasanaethau is eu prisiau, yn ogystal ag Unol Daleithiau America. Mae gwledydd y Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer y Bartneriaeth ar Draws y Môr Tawel (CPTPP) hefyd yn faes ble mae cytundeb masnach ôl-Brexit wedi'i flaenoriaethu[xxii]. Mae'n debygol y bydd hyn yn ei wneud yn hyd yn oed yn fwy anodd i weithgynhyrchwyr Cymru gystadlu ar bris a chynnal cyfran o'r farchnad ar y sail yma.

## Argymhellion Polisi

- At ei gilydd, mae'r heriau hyn yn amlygu'r angen i weithgynhyrchwyr Cymru barhau i fuddsoddi mewn sgiliau, technoleg, ac arloesi, i aros yn gystadleuol a goresgyn yr heriau sy'n wynebu'r sector ar un llaw, ond hefyd broblemau allweddol wrth wneud hynny ar y llall, gyda'r angen i lunio cadwyni cyflenwi yng Nghymru yn cael ei gadarnhau, ond hefyd gyllido dewisiadau eraill.
- Mae yna angen wedi'i atgyfnerthu i Lywodraeth y DU weithio i agor marchnadoedd allweddol yn yr UE i ganiatáu mynediad mwy esmwyth at gyflenwyr ac at ddefnyddwyr.



Federation of Small Businesses

Pennod 4

# Gwneud Lle I Weithgynhyrchwyr BBaCh Dyfu Yn Yr Hir Dymor

"Oherwydd ein bod yn effeithlon iawn, rydym yn teimlo dirywiad yn fwy cyflym. Yr hiraf yr ydych wedi bod mewn busnes y mwyaf yr ydych digaloni pan nad yw pethau'n troi rownd.  Rhwng y cyfnodau amser "gwych" bu troeon anffodus mawr, ond mae wedi mynd yn ddiflas gan fod y troeon anffodus wedi mynd yn rhai di-baid. Covid, yna ein problemau gyda chyflenwyr, yna'r codiadau cyflym ym mhrisiau ynni ac yn awr y codiadau yn y cyfraddau llog sydd ar yr un pryd yn ychwanegu at ein taliadau morgais ac yn achosi i gwsmeriaid ddal eu harchebion yn ôl. Mae wedi dod i'r pwynt ble mae'r cyfeiriad meddwl yw os oes yna ergyd arall, na fyddwn yn gallu ei gymryd. Bydd unrhyw gynnydd yn yr isafswm cyflog fis Ebrill nesaf yn criplo gweithgynhyrchu fel ein gweithgynhyrchu ni. Ac yna rydym yn cael pobl Adnoddau Dynol yn ein galw yn gofyn beth ydych yn ei wneud i'ch gweithwyr. Rwyf innau'n gofyn, "beth am y rheolwyr?"

Mae'n amser caled i gwmnïau bach, gyda'r storm economaidd yn golygu bod rhaid i fusnesau fod â'u hwyneb at yr ymosodiad, a delio â 'phopeth, ym mhobman, i gyd ar unwaith'. O reidrwydd mae hyn yn cael yr effaith o gulhau'r ffocws ar ymladd tân, gan wneud ffocws hir dymor a deall y dirwedd ehangach yn anodd i gwmnïau eu cymryd i ystyriaeth.



fsb
Federation of Small Businesses

Mae hyn hefyd yng nghyd-destun maith y dirywiad yng nghyfran y cwmnïau micro o fewn gweithgynhyrchu. Nid yw'n ymddangos bod y twf mewn cwmnïau canolig yn ganlyniad twf cwmnïau bach mewndarddol. Felly, mae'r ddaear wedi bod yn beryglus ers peth amser cyn yr ysgytwadau presennol. Ar y llaw arall, mae hyn yn pwyntio at fintai o gwmnïau bach gyda dyheadau twf sydd o gael yr amser a'r hyblygrwydd yn darparu grym a allai fod heb ei gyffwrdd er twf yng Nghymru. Fel y cyfryw gall ffocws ar agor amser a lle i BBaChau helpu i ddarparu lle i feithrin capasiti a galluoedd i fanteisio ar gyfleoedd yn y dyfodol.

Yr un modd, mae'r anawsterau wrth glustnodi a goresgyn bylchau posibl yn y cadwyni cyflenwi yn gofyn am gasglu a mapio gwybodaeth, yn ogystal â chyflenwi BBaChau â mynediad rhwydd at yr wybodaeth honno a data sy'n berthnasol i'w hanghenion uniongyrchol. Byddai darparu'r gwasanaeth 'trefnu priodasau' hwn yn caniatáu hefyd i fylchau gael eu clustnodi ar gyfer datblygu cyflenwyr a meithrin capasiti rhwydweithiau i ddarparu cadwyni cyflenwi cryfach. Mae angen i'r Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael fod yn arfer profedig i helpu BBaChau trwy sicrhau sylfaen gryfach yn eu cadwyni cyflenwi, ac nid canol cost wedi'i wasgu gan Brynwyr o'r Top i lawr, a gan gyflenwyr o'r gwaelod i fyny.

Yn ei dro gallai meithrin y rhain dros yr hir dymor fynd i'r afael â'r bylchau effaith lluosydd gan fod buddsoddiad mewn Gweithgynhyrchu yn cael llai o effaith nag y gwelwyd yn Yr Alban. Eto – mae'r bwlch hwn yn dangos maes i Lywodraeth Cymru ei lywio gyda strategaeth economaidd glir a ffocws sy'n deall yr angen i ddarparu amser a lle ar gyfer gweithgynhyrchwyr BBaCh.

Fframwaith o'r fath yn cyfunioni anghenion hir dymor a byrdymor, blaenoriaethau cwmnïau a rhanddeiliaid y llywodraeth, a sicrhau ein bod yn edrych ar brosesau sy'n deall anghenion BBaChau yn well ac yn eu cyflenwi ag amser a lle. Gall gwneud lle i weithgynhyrchwyr BBaCh yng Nghymru fod yn faen clo ar gyfer datblygu economaidd cynaliadwy hir dymor a gall ddarparu'r cyfle ar gyfer cylch rhinweddol o swyddi o ansawdd, sgiliau ac arloesi, a mynd i'r afael â phroblemau economaidd hirsefydlog Cymru.

Mae'n amser datblygu'r agenda i wneud amser a lle i weithgynhyrchu yng Nghymru ffynnu.





fsb
Federation of Small Businesses

# Cyfeirnodau


[i] https://www.gov.scot/publications/about-supply-use-input-output-tables/pages/user-guide-multipliers/

[ii] Welsh Government (2021) Manufacturing future for Wales: framework: How we will improve manufacturing across Wales, Welsh Government Cardiff

[iii] Michie, R., Fonseca, L., & Piskorek, K. (2022). United Kingdom, Wales in TRACER Report on the needs for workforce retraining, Centre for Renewable Energy Sources and Saving (CRES), Pikermi-Attiki, Greece, pp. 90-114. (https://tracer-h2020.eu/wp-content/uploads/2021/09...)

[iv] Michie, R., Fonseca, L., & Piskorek, K. (2022). United Kingdom, Wales in TRACER Report on the needs for workforce retraining, Centre for Renewable Energy Sources and Saving (CRES), Pikermi-Attiki, Greece, pp. 90-114. (https://tracer-h2020.eu/wp-content/uploads/2021/09...)

[v] Clifton, N., and Walpole, G. (2023) Future of Innovation Thought Leadership Project: Innovation for a Circular Economy, Innovation Caucus

[vi] Welsh Government (2021) Manufacturing future for Wales: framework :How we will improve manufacturing across Wales, Welsh Government Cardiff

[vii] https://www.fsb.org.uk/resource-report/the-tech-tonic.html

[viii] Huggins, R., Prokop, D., and Thompson, P. (2021) UK Competitiveness Index 2021

[ix] https://www.gov.wales/welsh-economy-numbers-interactive-dashboard

[x] Clifton, N., Huggins, R., Pickernell, D., Prokop, D., Smith, D., & Thompson, P. (2020). Networking and strategic planning to enhance small and medium-sized enterprises growth in a less competitive economy. Strategic Change, 29(6), 699-711.

[xi] https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/employmentandemployeetypes/datasets/regionbybroadindustrygroupsicbusinessregisterandemploymentsurveybrestable4

[xii] https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/employmentandemployeetypes/adhocs/0069984digitoccupationsocand4digitindustrysicbyagebands

[xiii] Gellid gweld bod Covid wedi effeithio ar sectorau penodol a maint cwmnïau, yn benodol bwyd (cynhyrchwyr bach a chanolig yn niweidiol ond nid cwmnïau micro a dyfodd yn gryf) a diod (twf cadarnhaol mewn cwmnïau micro a bach), dillad (cwmnïau micro yn gadarnhaol), coed (ar gyfer cwmnïau micro), argraffu (yn negyddol), cemegau (cwmnïau micro yn gadarnhaol), metelau (yn negyddol), cerbydau (cwmnïau micro yn gadarnhaol ond cwmnïau canolig yn negyddol), trafnidiaeth (yn negyddol, yn arbennig cwmnïau micro), a gweithgynhyrchu arall (yn negyddol, yn arbennig i gwmnïau micro)

[xiv] Economic Intelligence Wales, 2019)

[xv] Pickernell, D. (2011). Economic development policy in Wales since devolution: From despair to where? CASS papers in economic geography.

[xvi] McCarthy, S., Packham, G., & Pickernell, D. (2014). The potential of and framework for promoting a business angel university and intellectual property exploitation: a case study from Wales. In Handbook on the entrepreneurial university (pp. 323-345). Edward Elgar Publishing.


fsb
Federation of Small Businesses

[xvii] Kapitsinis, N., Munday, M., Roberts, A., & Williams, R. (2019). Export finance in Wales, Development Bank for Wales.

[xviii] Clear, S., Clifford, G., Cahill, D., & Allen, B. (2020). A new methodology for improving penetration, opportunity-visibility and decision-making by SMEs in EU public procurement. European Procurement & Public Private Partnership Law Review, 15(2), 83-107.

[xix] Wontner, K. L., Walker, H., Harris, I., & Lynch, J. (2020). Maximising "Community Benefits" in public procurement: Tensions and trade-offs. International journal of operations & production management, 40(12), 1909-1939.

[xx] Henderson, D., Munday, M., & Roberts, A. (2021). The regional consequences of new digital infrastructure: can Welsh SMEs gain an edge from access and adoption of superfast broadband?. National Institute Economic Review, 255, 42-55.

[xxi] Dickenson, M., Hipwood, T., Jones, C., Munday, M., Roberts, A., & Willimas, R. (2019). EU transition trade prospects for key Welsh sectors.

[xxii] Dickenson, M., Hipwood, T., Jones, C., Munday, M., Roberts, A., & Willimas, R. (2019). EU transition trade prospects for key Welsh sectors.



fsb Federation of Small Businesses

fsb.org.uk

facebook.com/federationofsmallbusinesses

@FSB_Wales

federation-of-small-businesses

@fsb_uk

Federation of Small Businesses
Ffederasiwn y Busnesau Bach